# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Chwefror 2021

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

**Cyfnod cofrestru**

(13.30-14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

(14.00-15.00) (Tudalennau 1 - 54)

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Ed Sherriff - Llywodraeth Cymru

Emma Edworthy - Llywodraeth Cymru

Sophie Brighouse - Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(15.00-15.05)

3.1 **Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch gwelliannau i'r Bil Masnach - 10 Chwefror 2021**

(Tudalennau 55 - 56)

3.2 **Papur i'w nodi 2: Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch fframweithiau cyffredin - 10 Chwefror 2021**

(Tudalen 57)

3.3 **Papur i'w nodi 3: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch y berthynas newydd â'r UE - Beth mae'n ei olygu i Gymru - 12 Chwefror 2021**

(Tudalennau 58 - 103)

3.4 **Papur i'w nodi 4: Gohebiaeth gan Gynullydd Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban at y Cadeirydd ynghylch Fframwaith Cyffredin dros dro'r DU ar Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid - 17 Chwefror 2021**

(Tudalennau 104 - 108)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.05)

## 5 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - trafod y dystiolaeth

(15.05-15.20)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Chwefror 2021

Annwyl David a Mick,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu i Dŷ’r Cyffredin basio diwygiad gan Lywodraeth y DU i'r Bil Masnach ar 9 Chwefror sy'n gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig. Bydd y diwygiad yn cael ei ystyried yn Nhŷ’r Arglwyddi maes o law.

*Y Diwygiad Amddiffyniadau Statudol*

Mae'r gwelliant, sydd wedi'i gynnig yn lle gwelliant 6B yr Arglwyddi, yn gosod cyfyngiadau ar sut y gellir arfer y pwerau cydamserol newydd a roddwyd i un o Weinidogion y Goron a'r awdurdodau datganoledig o dan gymal 2 o'r Bil i weithredu darpariaethau penodol o’r Cytundebau Masnach Rydd a ddaeth i ben rhwng y DU a gwledydd eraill mewn amgylchiadau lle'r oedd cytundeb eisoes rhwng y wlad bartner honno a'r UE o’r 31 Ionawr 2020 (y cyfeirir atynt yn aml fel 'cytundebau parhad masnach').

Mae'n bwysig nodi nad yw cymal 2 y Bil yn rhoi pŵer cyffredinol i weithredu Cytundebau Masnach Rydd newydd ac felly ni fydd y gwelliant hwn yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar bwerau Llywodraeth y DU na'r Llywodraethau Datganoledig i weithredu darpariaethau o fewn Cytundebau Masnach Rydd newydd ble nad oedd cytundeb gyda'r wlad sy'n bartner a'r UE o’r 31 Ionawr 2020.

Bydd y gwelliant yn golygu y bydd angen i unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 2 fod yn gyson â chynnal lefelau'r DU o amddiffyniadau statudol mewn nifer o feysydd penodol gan gynnwys lles anifeiliaid a diogelu'r amgylchedd. Mae'r diffiniad o "lefelau diogelu statudol y DU" yn cynnwys deddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru neu a basiwyd gan y Senedd yn y meysydd penodedig. Mae'r gwelliant hefyd yn nodi bod yn rhaid i ddarpariaethau ar wasanaethau gofal iechyd fod yn gyson â chynnal gwasanaethau gofal iechyd clinigol a ariennir yn gyhoeddus yn y DU, neu yn y rhan o'r DU y mae'r rheoliadau'n effeithiol ynddynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ystyrir bod y gwelliant yn bodloni'r trothwy ar gyfer gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol am y rhesymau canlynol:

- Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig gan ei fod yn newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae'n cyfyngu ar gwmpas pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau drwy nodi amodau y mae angen cydymffurfio â hwy er mwyn gwneud unrhyw reoliadau o dan gymal 2(1).

- Roedd cymal 2 o fewn cwmpas y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a osodwyd ar 2 Ebrill 2020 ar y sail ei fod yn gwneud darpariaeth a oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd at ddibenion y prawf yn SO 29.1(i). Y rheswm am hyn oedd bod y darpariaethau y gellid eu gweithredu gan reoliadau yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi sy'n dod o fewn cymhwysedd y Senedd, i gynnwys materion fel amaethyddiaeth a physgodfeydd. Wrth i'r gwelliant newid cwmpas y pwerau i wneud rheoliadau, ystyrir hefyd bod y dadleuon hynny'n berthnasol i'r gwelliant. Mae'r safonau y byddai angen i Weinidogion Cymru eu hystyried cyn arfer y pŵer hwnnw hefyd yn ymwneud â nifer o faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, megis amaethyddiaeth, yr amgylchedd a iechyd a iechyd anifeiliaid.

Byddai'r gwelliant hwn fel arfer wedi galw am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ond oherwydd y cyfnod hwyr iawn y'i cyflwynwyd yn ystod y broses o Ystyried Diwygiadau, cam sy’n mynd yn ei flaen yn gyflym iawn, nid oes digon o amser i osod memorandwm atodol ac i drefnu dadl yn y Senedd mewn modd sy’n gallu cael ei ystyried yn y broses Seneddol. Mae'n rhwystredig bod newidiadau munud olaf o'r math hwn yn golygu na ellir cadw at y broses gydsynio yn y ffordd y byddem yn dymuno. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod y gwelliant, yn yr achos hwn, yn welliant i'r Bil ar y sail ei fod yn nodi mesurau diogelu sy'n berthnasol i gwmpas y pŵer i wneud rheoliadau yng nghymal 2, drwy sicrhau na ellir ei arfer mewn ffordd a fyddai'n anghyson â'r safonau presennol sy'n gymwys mewn meysydd fel iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion a diogelu'r amgylchedd.

Byddaf yn parhau i roi gwybod i chi am unrhyw welliannau a wnaed yn ystod camau olaf y Bil yn y Senedd sydd, yn fy marn i, yn cynnwys cymhwysedd datganoledig.
Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at holl Aelodau'r Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
Welsh Parliament
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

---

10 Chwefror 2021

Annwyl Weinidog,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr, ac am rannu'r crynodebau o'r fframwaith cyffredin â'r Pwyllgor.

Trafododd y Pwyllgor y crynodebau yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror. O ystyried bod amser yn brin cyn diwedd y Pumed Senedd, ni fyddwn mewn sefyllfa i gyflawni gwaith ar yr holl gytundebau fframwaith amlinellol dros dro sy'n dod o fewn ein cylch gwaith. Rydym wedi cytuno, felly, i flaenoriaethu Iechyd Planhigion ac Amrywogaethau a Hadau Planhigion. Os, ar ôl cael golwg ar unrhyw gytundebau fframwaith amlinellol dros dro eraill yr hoffem wneud gwaith arnynt, byddwn yn rhoi gwybod i chi ar y cyfle cyntaf sydd ar gael.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Yn gywir,



Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a
Deddfwriaeth Ychwanegol

SeneddEAAL@senedd.wales

12 Chwefror 2021

Annwyl David

Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Y berthynas newydd â'r UE - Beth mae'n ei olygu i Gymru.* Mae'r ddogfen hon yn ddadansoddiad o oblygiadau perthynas newydd y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd fel y mae wedi'i nodi yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA), cytundebau cysylltiedig a datganiadau ar y cyd. Mae'r ddogfen yn ceisio crynhoi'r newidiadau ymarferol y bydd dinasyddion, busnesau a chymunedau yng Nghymru yn eu teimlo o ganlyniad i'r newid yn ein perthynas â'r UE.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Berthynas Newydd â'r UE

## Beth mae'n ei olygu i Gymru

# Cynnwys


Rhagair y Gweinidog

Cyflwyniad

Crynodeb o'r Prif Newidiadau

Beth mae'n ei olygu i bobl sy'n byw yng Nghymru

Beth mae'n ei olygu i fusnesau a gweithwyr Cymru

Beth mae'n ei olygu i'n diogelwch

Beth mae'n ei olygu i'n cymunedau a'n cymdeithas

Beth ddylai ddigwydd nesaf?


OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42120 ISBN digidol: 978-1-80082-35[illegible]-9

# Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi dadlau o blaid y berthynas agosaf â'r Undeb Ewropeaidd y gallai negodiadau ei sicrhau. Felly, gwnaethom groesawu'r cyhoeddiad ar 24 Rhagfyr bod y Deyrnas Unedig wedi dod i gytundeb ynglŷn â'n perthynas yn y dyfodol â'r UE.

Ar ôl misoedd o waith cynllunio wrth gefn ar gyfer canlyniad a fyddai wedi bod yn drychinebus pe na bai cytundeb wedi'i lunio, roedd modd inni ddechrau cynllunio ar sail dealltwriaeth gadarn o'r ffordd ymlaen. Er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) yn methu â gwireddu'r uchelgais yr oedd ar Lywodraeth Cymru ei heisiau ar gyfer y berthynas, mae ef o leiaf yn darparu sefydlogrwydd a sail i ddatblygu'r berthynas yn y dyfodol, heb y drwgdeimlad a fyddai wedi codi pe bai'r negodiadau wedi methu.

Nid yw'r TCA yn agos i'r cytundeb y byddai Llywodraeth Cymru wedi dymuno ei weld. Mewn cyfres o ddogfennau, a ddechreuodd gyda Diogelu Dyfodol Cymru (2017), nodwyd ein barn ynglŷn â sut i barchu canlyniad refferendwm 2016 ac, ar yr un pryd, leihau'r niwed i'n lles economaidd a chymdeithasol.

Ddechrau'r llynedd, gwnaethom nodi ein dyheadau yn 'Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: blaenoriaethau negodi i Gymru', gan gydnabod y mandad a oedd gan Lywodraeth bresennol y DU yn sgil Etholiad Cyffredinol 2019 a'i phenderfyniad i adael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau.

Yn anffodus, mae'r TCA yn brin iawn o'r nod hwnnw hyd yn oed ac, yn ein barn ni, y rheswm dros hyn yw penderfyniad Llywodraeth y DU i roi ideoleg o flaen lles economaidd pobl y wlad hon.

O ystyried nad oedd modd inni na'r Llywodraethau Datganoledig eraill gael unrhyw ddylanwad gwirioneddol ar y broses negodi, rydym wedi'i gwneud yn gwbl glir bod rhaid i Brif Weinidog y DU a'i Lywodraeth ysgwyddo cyfrifoldeb llwyr dros y Cytundeb hwn a'i ganlyniadau.

Mae anfanteision niferus eisoes wedi dechrau dod i'r amlwg – y cynnydd enfawr mewn biwrocratiaeth a rhwystrau heblaw am dariffau, yr anawsterau sy'n wynebu'r rhai yn y celfyddydau a'r sector creadigol sydd am fynd ar daith yn Ewrop, y niwed uniongyrchol i'n diwydiant bwyd môr, a'r ffin amlwg iawn ym Môr Iwerddon – ac mae'n anghyfrifol i Lywodraeth y DU hawlio bod rhai o'r rhain yn 'annisgwyl' neu'n 'broblemau cychwynnol'. Maent i raddau helaeth yn adlewyrchu penderfyniadau gwleidyddol Llywodraeth y DU, ynghyd â chanlyniad naturiol proses negodi lle mae'r ddwy ochr yn ceisio gwarchod eu buddiannau.

Fodd bynnag, er ein pryderon difrifol ynglŷn â'r cytundeb, rydym bob amser wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau y gall Cymru ymateb i'r sefyllfaoedd newydd hyn. Nod y ddogfen hon yw nodi mewn modd gwrthrychol beth sydd wedi newid ers diwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020, a chyfeirio busnesau a dinasyddion at ragor o wybodaeth, gan gynnwys beth sydd ar gael ar ein gwefan **Paratoi Cymru** (https://llyw.cymru/paratoi-cymru). Yn anochel, ni all y ddogfen hon ymdrin â phopeth ond rydym yn gobeithio ac yn credu y bydd yn darparu trosolwg cyffredinol defnyddiol o'r materion pwysicaf o safbwynt Cymru.

Y TCA yw'r sail sydd gennym i weithio arni ac edrych tua'r dyfodol – gan gynnal a datblygu ein cysylltiadau o fewn Ewrop yn ogystal â meithrin rhai newydd y tu hwnt i hynny. Er y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau dros berthynas gryfach ac agosach â'r UE yn y tymor canolig a'r tymor hir, byddai'n annoeth gadael i'n hunain gredu mai 'camgymeriadau' anfwriadol, y gellir eu hunioni'n gyflym, yw'r rhwystrau newydd a'r fiwrocratiaeth ychwanegol sy'n ein hwynebu wrth fasnachu â'n cymdogion Ewropeaidd a theithio i wledydd eraill yn Ewrop. Y TCA yw'r realiti newydd o ran ein lle yn Ewrop a'r byd.



**Jeremy Miles, AS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**

Yn olaf, hoffwn eich sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth i ddinasyddion, busnesau, sefydliadau a chymunedau wrth inni ddelio â'r realiti newydd hwn. Byddwn hefyd yn parhau i ddadlau dros ymagwedd bragmataidd tuag at berthynas y DU â gweddill y byd, gan roi lles ein pobl wrth wraidd hynny.

# Cyflwyniad

Cytunwyd ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar 24 Rhagfyr 2020, ddiwrnodau yn unig cyn i'r cyfnod pontio ddod i ben ar 31 Rhagfyr gan esgor ar berthynas newydd rhwng y DU a'r UE. Yn ogystal â'r TCA, lluniwyd cytundebau ar y berthynas yn y dyfodol ynglŷn â Gweithdrefnau Diogelwch ar gyfer Rhannu a Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol ac ynglŷn â Chydweithredu ar Faterion Niwclear. Roedd hefyd gyfres o Ddatganiadau ar y Cyd ynglŷn ag ystod o feysydd lle bydd rhagor o gydweithredu yn cael ei gytuno. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â rheoliadau gwasanaethau ariannol a'r datganiad mabwysiadu penderfyniadau digonolrwydd data.

Yn dechnegol, ymadawodd y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020, ond sefydlodd y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE gyfnod pontio tan 31 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y DU yn dal i fod yn rhan o Farchnad Sengl ac Undeb Tollau'r UE a chadwodd yr hawliau a'r rhwymedigaethau cysylltiedig. Yn ymarferol, ychydig iawn o wahaniaeth gweladwy oedd yn y ffordd o wneud busnes a symud o gwmpas yr UE o ganlyniad i'r trefniant hwnnw.

Mewn cyferbyniad, ar ôl diwedd y cyfnod pontio, bu newidiadau llawer mwy sylweddol ac ymarferol yn ein perthynas â'n cymdogion agosaf: diwedd mynediad dirwystr i'r Farchnad Sengl, cyfranogi yn yr Undeb Tollau a gweithredu rheolau a chytundebau rhyngwladol yr UE yn y DU. Mae'r TCA yn darparu fframwaith ar gyfer perthynas sylfaenol wahanol o 1 Ionawr 2021 ymlaen, ac er bod y TCA yn rhoi eglurder mawr ei angen ynghylch ein perthynas fasnachu newydd, mae nifer o gymhlethdodau newydd bellach yn bodoli ac mae ansicrwydd o hyd mewn sawl maes allweddol.

Ers i'r broses ymadael â'r UE ddechrau, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gweithio'n adeiladol tuag at berthynas yn y dyfodol a fyddai er lles pennaf ein dinasyddion a'n busnesau. Mae hyn wedi'i nodi'n glir mewn cyhoeddiadau ers Refferendwm yr UE, yn benodol *Diogelu Dyfodol Cymru* ac *Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: blaenoriaethau negodi i Gymru*. Mae'r dystiolaeth wedi bod yn glir mai'r ffordd o weithredu canlyniad refferendwm 2016 a fyddai wedi achosi cyn lleied o amharu â phosibl fyddai fod wedi cadw cymaint o fynediad â phosibl i Farchnad Sengl yr UE, parhau i gyfranogi mewn Undeb Tollau, a pheidio â gwyro llawer oddi wrth yr UE o ran rheoleiddio.

Er nad y TCA yw'r cytundeb y galwodd Llywodraeth Cymru amdano, o gael dewis plaen rhwng y cytundeb hwn a diweddu'r cyfnod pontio heb fframwaith ar gyfer cytundeb ar y berthynas yn y dyfodol, gwnaethom gefnogi'r dewis a fyddai'n darparu'r berthynas agosaf posibl â'r UE ac felly cyn lleied o amharu â phosibl – fel yr ydym wedi'i wneud drwy gydol y pedair blynedd a hanner diwethaf. Ar yr un pryd, tra'r oedd y broses negodi yn mynd rhagddi, buddsoddwyd adnoddau sylweddol gennym i gynllunio a pharatoi ar gyfer pob canlyniad posibl (fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2020) a rhoi arweiniad i ddinasyddion, busnesau a sefydliadau drwy ein gwefan Paratoi Cymru.

Yn gryno, y gwahaniaeth sylfaenol yn ein perthynas â'r UE yn 2021 o gymharu â 2020 yw nad ydym mwyach yn rhan o'r trefniant rhyddid i symud, o ran pobl, nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf, rhwng y DU a'r 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE. O ganlyniad, byddwn yn wynebu rhwystrau newydd i fasnach mewn nwyddau a gwasanaethau ac i'n hawliau i deithio, byw a gweithio mewn gwledydd eraill yn Ewrop. Bydd y goblygiadau i'r economi yn bellgyrhaeddol.

Yn wir, mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr wedi amcangyfrif effeithiau'r cytundeb gan ddefnyddio modelau a pherthnasau empirig tebyg i'r rhai a nodir mewn senarios ymadael â'r UE a sefydlogrwydd ariannol. Ar sail y rhain, ac o gymharu â threfniant dirwystr, rhagwelir y bydd masnach y DU 10½% yn is yn y tymor hir o dan y trefniant newydd, a chynhyrchiant a chynnyrch domestig gros tua 3¼% yn is [1].

Yn ogystal â threfniadau newydd ar gyfer masnach mewn nwyddau a gwasanaethau, mae'r TCA hefyd yn ymdrin ag ystod o feysydd eraill megis buddsoddi, cystadleuaeth, ynni a chynaliadwyedd, pysgodfeydd, diogelu data a nawdd cymdeithasol. Er mai prif gamp y cytundeb yw ei fod yn darparu ar gyfer dim tariffau a dim cwotâu ar nwyddau a gynhyrchir yn y DU a'r UE, nid yw hyn yn golygu bod gennym yr un math o fynediad i farchnadoedd yr UE ag a oedd gennym o'r blaen; mae rhwystrau newydd sylweddol, nad ydynt yn dariffau, a chyfyngiadau newydd ar ba nwyddau a all gael mynediad i'r farchnad heb dariffau a chwotâu drwy'r rheolau tarddiad caeth (gweler yr adran Beth mae'n ei olygu i fusnesau a gweithwyr Cymru). Bydd y cyfyngiadau masnachu hyn i gyd yn cael effaith sylweddol iawn ar yr economi, busnesau a swyddi pobl.

Yn wir, ym marn Llywodraeth Cymru a llawer o ddadansoddwyr annibynnol, nid yw'r TCA ond yn darparu fframwaith ar gyfer perthynas a fydd angen esblygu ymhellach. Mewn sawl maes, mae cytundebau a threfniadau sylweddol i'w llunio o hyd ac ar hyn o bryd nid yw'n adlewyrchu cymhlethdod llawn yr ystod o feysydd y mae angen i'r DU a'r UE gydweithio ynddynt.

Bydd y berthynas rhwng y DU a'r UE nawr yn cael ei rheoli gan set gymhleth o drefniadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'n hymrwymiad i weithio'n adeiladol i feithrin perthynas newydd â'n cymdogion Ewropeaidd. Byddwn hefyd yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Gymru lais yn y trefniadau llywodraethu hynny. Mae hi nawr yn bwysicach nag erioed bod llais y Llywodraethau Datganoledig yn cael ei glywed i'n galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau rhyngwladol newydd.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu goblygiadau'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE, a nodir yn y TCA a dogfennau cysylltiedig, ar gyfer dinasyddion, busnesau a chymunedau Cymru yn ogystal â'n diogelwch yn y dyfodol.

Mae canlyniadau'r cytundeb yn eang iawn a disgrifiwyd y camau sy'n cael eu cymryd i baratoi ar eu cyfer yn ein Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio. Mae llawer o'r rhain yn faterion a oedd yn berthnasol o'r diwrnod a'r wythnos gyntaf, ac roedd angen gweithredu er mwyn paratoi ein busnesau a'n cymunedau ar gyfer y newidiadau ddechrau eleni a sicrhau ein bod yn cynnal cyflenwad di-dor o nwyddau hanfodol. Ond mae angen cymryd llawer o gamau eraill i baratoi Cymru ar gyfer perthynas sylfaenol wahanol â'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen fuddsoddi sylweddol ym mhorthladdoedd Cymru er mwyn bod yn barod ar gyfer mesurau rheoli mewnforio newydd. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar ein cymunedau o gwmpas Caergybi a phorthladdoedd De-orllewin Cymru, ond hefyd ar y busnesau sy'n masnachu drwyddynt.

Ein blaenoriaeth nawr, fel o'r blaen, yw cynorthwyo dinasyddion ac economi Cymru i ymateb i'r newid a'r heriau anochel y mae'r TCA wedi'u cyflwyno. Rhan bwysig o hyn oedd diweddaru ein gwefan **Paratoi Cymru** yn gyflym. Mae'r wefan hon yn rhoi cyngor i fusnesau, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd, ac yn cyfeirio at ffynonellau o wybodaeth bellach. Rydym yn annog unrhyw un sydd â chwestiynau ynglŷn ag effaith diwedd y cyfnod pontio a'r TCA i ddefnyddio'r adnodd hwn. Rydym hefyd wedi sicrhau bod gan ein gwasanaethau cynghori adnoddau digonol i ymateb i geisiadau am gyngor.



1 www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/monetary-policy-report/2021/february/monetary-policy-report-february-2021.pdf?la=en&hash=3638A7091B34164428A54277B55BD6901709AA44

# Crynodeb o'r prif newidiadau

## Beth mae'n ei olygu i bobl sy'n byw yng Nghymru

Roedd gan wladolion y DU hawliau a rhyddidau penodol drwy ein haelodaeth o'r UE nad ydynt wedi'u sicrhau yn y TCA.

Nid oes gan ddinasyddion y DU erbyn hyn unrhyw hawl awtomatig i weithio, astudio, dechrau busnes neu fyw mewn unrhyw wlad yn yr UE. Mae'r trefniadau newydd yn rhai o'r meysydd hyn yn gymhleth, gan ddisgyn y tu allan i gwmpas y TCA, ac maent yn faterion i'w penderfynu gan bob un o'r 27 o Aelod-wladwriaethau unigol.

Mae rhai o'r hawliau i ddinasyddion wedi'u diogelu gan y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE (ac, yn achos dinasyddion yng Ngogledd Iwerddon, gan Brotocol Gogledd Iwerddon) neu gytundebau dwyochrog newydd sydd wedi'u llunio rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau unigol. Fodd bynnag, yn achos hawliau eraill, bydd dinasyddion y DU yng Nghymru nawr yn cael eu trin yn yr un ffordd â dinasyddion o unrhyw 'drydedd wlad' arall.

Yn benodol:

- Bydd angen i deithwyr o Gymru i'r UE fod yn ymwybodol o'r rheolau a'r cyfyngiadau newydd a fydd yn berthnasol iddynt
- Ar gyfer gofal iechyd, mae'r TCA yn cynnwys cynllun tebyg i'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd presennol ar gyfer teithwyr
- Ni fydd teithwyr o Brydain Fawr bellach yn gallu manteisio'n llawn ar gynllun Teithio Anifeiliaid Anwes yr UE
- Nid oes gan wladolion y DU hawl awtomatig nawr i fyw neu weithio yn yr UE
- Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn Erasmus+.

## Beth mae'n ei olygu i fusnesau a gweithwyr Cymru

Fel rhan o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau, mae ein busnesau wedi elwa ar ryddid i symud o ran nwyddau, gwasanaethau, pobl a chyfalaf o fewn yr UE. Gwnaeth diwedd y cyfnod pontio esgor ar y newid mwyaf yn ein perthynas fasnachu mewn degawdau. Erbyn hyn, nid yw rheolau'r farchnad fewnol yn gymwys. Roedd y rheolau hyn yn sicrhau nad oedd rhwystrau i fasnach a bod safonau cyson rhwng gwledydd.

Mae'r TCA bellach yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein perthynas fasnachu â'r UE, ac o ganlyniad mae nifer o reolau newydd y mae angen i'n busnesau eu deall a rhwystrau y mae angen iddynt eu goresgyn.

Mae'r newidiadau yn gymhleth, a bydd y goblygiadau i fusnesau yng Nghymru yn dibynnu ar ba sector y mae busnes ynddo a natur y prosesau busnes dan sylw.

Mae'r newidiadau ymarferol ar gyfer busnesau a chyflogwyr yn cynnwys:

- Ar gyfer masnachu nwyddau:
  - Er mwyn elwa o fasnach ddi-dariff, rhaid i fusnesau gael prawf bod nwyddau yn tarddu o'r DU neu'r UE, gan gadw at ofynion y rheolau tarddiad yn y TCA
  - Bydd angen i fusnesau sy'n masnachu â'r UE gael rhif Adnabod a Chofrestru Gweithredwr Economaidd (EORI) Prydain Fawr er mwyn gallu gwneud datganiadau tollau

  - Mae angen i fusnesau sy'n masnachu ar draws ffiniau'r UE gytuno â'i gilydd pwy sy'n gyfrifol am bob cam yn y gadwyn gyflenwi gan gynnwys clirio tollau
  - Gallai busnesau wynebu'r angen i fodloni dwy set o safonau a rheoliadau ar gyfer eu cynnyrch yn y dyfodol
  - Hyd yn oed pan fydd safonau yr un fath, wrth fasnachu nwyddau bydd angen i fusnesau ddilyn gweithdrefnau asesiad cydymffurfio
- Ar gyfer masnachu gwasanaethau:
  - Rhaid i fusnesau sy'n allforio gwasanaethau i'r UE fodloni rheolau ar gyfer trydydd gwledydd a gaiff eu gosod gan bob Aelod-wladwriaeth – sy'n golygu bod angen cadw at hyd at 27 o wahanol setiau o reoliadau

## Beth mae'n ei olygu i'n diogelwch

Mae'r UE yn ceisio sicrhau diogelwch holl ddinasyddion yr UE, yn bennaf drwy ei strwythurau datblygedig i gefnogi gwaith gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol rhwng Aelod-wladwriaethau, strwythurau y chwaraeodd y DU rôl flaenllaw ynddynt tra'r oedd yn aelod.

O ran polisi ac amddiffyn tramor, mae Polisi Cyffredin yr UE ar Faterion Tramor a Diogelwch (CFSP) yn gosod y fframwaith ar gyfer strwythurau gwleidyddol a milwrol yr UE, a theithiau a gweithrediadau milwrol a sifiliaid dramor. Ei amcanion yw diogelu heddwch, cryfhau diogelwch rhyngwladol, hyrwyddo cydweithredu rhyngwladol, a datblygu ac atgyfnerthu democratiaeth, rheolaeth y gyfraith a pharch at hawliau dynol a rhyddid sylfaenol.

Wrth ymadael â'r UE, ni fydd y DU bellach yn cymryd rhan mewn llawer o'r mentrau hyn, er bod y TCA a'r cytundebau cysylltiedig yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi cydweithredu parhaus mewn rhai ohonynt. Heb os, mae'r TCA yn gwanhau strwythurau gorfodi'r gyfraith a diogelwch sy'n helpu i amddiffyn dinasyddion yng Nghymru ac ar draws yr UE.

## Beth mae'n ei olygu i'n cymunedau a'n cymdeithas

Mae cymunedau Cymru wedi elwa ar aelodaeth o'r UE mewn sawl ffordd, gan gynnwys amddiffyniadau cyfreithiol mewn meysydd polisi pwysig megis hawliau gweithwyr a safonau amgylcheddol.

Ers degawdau, mae Cymru wedi elwa ar gyllid sylweddol drwy raglenni'r UE, gwerth cyfanswm o ymhell dros £700m y flwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf yr addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch refferendwm 2016 na fyddai Cymru ar ei cholled o ganlyniad i ymadael â'r UE, mae penderfyniadau Llywodraeth y DU wedi gadael Cymru a'n cymunedau yn brin.

Mae dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a'r Cytundeb Masnach Rydd Ewropeaidd (EFTA) sydd wedi dod i fyw a gweithio yng Nghymru yn chwarae rhan hollbwysig yn ein cymdeithas – maent yn cael eu cyflogi yn ein sectorau busnes allweddol, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac yn cryfhau'r rhagoriaeth academaidd yn ein prifysgolion. Yn sgil diwedd y rhyddid i symud, nid oes gan ddinasyddion yr EEA na'r EFTA (ac eithrio'r rhai o Weriniaeth Iwerddon) yr hawl awtomatig mwyach i fyw a gweithio yn y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno system fewnfudo newydd yn seiliedig ar bwyntiau sydd bellach yn berthnasol i bob unigolyn sy'n dymuno symud i'r DU.

# Beth mae'n ei olygu i bobl sy'n byw yng Nghymru

Roedd gan wladolion y DU hawliau a rhyddidau penodol drwy aelodaeth y DU o'r UE nad ydynt wedi'u sicrhau yn y TCA. Yn yr adran hon, rydym yn ystyried y prif feysydd y mae trefniadau gwahanol wedi dod i rym ynddynt.

Nid oes gan wladolion y DU erbyn hyn unrhyw hawl awtomatig i weithio, astudio, dechrau busnes neu fyw mewn unrhyw wlad yn yr UE. Mae'r trefniadau newydd yn rhai o'r meysydd hyn yn gymhleth, gan ddisgyn y tu allan i gwmpas y TCA, ac maent yn faterion i'w penderfynu gan bob un o'r 27 o Aelod-wladwriaethau unigol. Mae rhai o'r hawliau i ddinasyddion wedi'u diogelu gan y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE (ac, yn achos dinasyddion yng Ngogledd Iwerddon, gan Brotocol Gogledd Iwerddon) neu gytundebau dwyochrog newydd sydd wedi'u llunio rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau unigol[2]. Fodd bynnag, yn achos hawliau eraill, bydd gwladolion y DU nawr yn cael eu trin yn yr un ffordd â dinasyddion o unrhyw 'drydedd wlad' arall.

Mae'r Cytundeb Ymadael wedi diogelu hawliau **dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU**. Rydym wedi manteisio ar bob cyfle i'w gwneud yn glir fod croeso yma i'r rhai o'r UE sydd wedi dewis ymgartrefu yng Nghymru a'n bod yn gwerthfawrogi eu cyfraniad at ein cymdeithas (a drafodir ymhellach yn yr adran Beth mae'n ei olygu i'n cymunedau a'n cymdeithas).

### Teithio i'r UE[3,4]

Bydd angen i deithwyr o'r DU i'r UE fod yn ymwybodol o'r rheolau a'r cyfyngiadau newydd a fydd yn berthnasol iddynt.

Bydd ar wladolion o'r DU sy'n ymweld ag Ardal Schengen neu'n teithio o fewn Ardal Schengen[5] (sef holl wledydd yr UE heblaw am Fwlgaria, Croatia, Cyprus a Rwmania, ynghyd â Norwy, y Swistir, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein) angen pasbort sy'n ddilys am o leiaf 3 mis ar ôl y dyddiad y maent yn bwriadu gadael Ardal Schengen[6], ac a ddyroddwyd o fewn y 10 mlynedd blaenorol. Caniateir **ymweliadau tymor byr heb fisa**[7] am hyd at 90 diwrnod o fewn unrhyw gyfnod o 180 diwrnod, cyhyd â bod y DU yn parhau i ganiatáu ymweliadau tymor byr heb fisa ar gyfer dinasyddion yr UE o holl Aelod-wladwriaethau'r UE. Ar gyfer **ymweliadau hwy** â'r UE (dros 90 diwrnod), bydd angen i ddinasyddion yr UE wneud cais i wledydd unigol am fisa. Mae'r rheolau hyn yr un fath ar gyfer perchnogion ail gartrefi – felly mae'n bosibl na fydd gwladolion y DU sy'n preswylio yn y DU ac sy'n berchen ar dŷ haf yn un o wledydd yr UE yn gallu treulio cymaint o amser yno ag o'r blaen.

O 2022 ymlaen, bydd yr UE yn cyflwyno'r System Ewropeaidd ar gyfer Olrhain ac Awdurdodi Teithio (**ETIAS**)[8]. Nod y system yw gwella diogelwch ardal Schengen yr UE drwy ragsgrinio teithwyr nad oes arnynt angen fisa fel arall er mwyn canfod risgiau o ran terfysgaeth neu fudo. Fel trydedd wlad, bydd angen i deithwyr o'r DU wneud cais ETIAS cyn teithio, gan gynnwys teithwyr nad ydynt ond yn teithio drwodd ar y ffordd i gyrchfannau eraill.

2 Mae trefniadau ar wahân rhwng y DU a Gwladwriaethau EEA/EFTA

3 Nid yw'r adran hon yn berthnasol i Weriniaeth Iwerddon. Gall dinasyddion y DU ac Iwerddon barhau i fyw, gweithio a symud yn rhydd rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r DU, yn ogystal â defnyddio gwasanaethau iechyd am ddim a derbyn budd-daliadau lles cymdeithasol o ganlyniad i'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng y DU ac Iwerddon.

4 www.gov.uk/visit-europe-1-january-2021

5 www.schengenvisainfo.com/

6 Bydd angen i'r pasbort fod yn ddilys am o leiaf 6 mis er mwyn teithio i unrhyw rai o'r gwledydd hyn

7 https://ec.europa.eu/home-affairs/what-we-do/policies/borders-and-visas/smart-borders/etias_en

8 https://ec.europa.eu/home-affairs/what-we-do/policies/borders-and-visas/smart-borders/etias_en

Ar gyfer gofal iechyd[9] mae'r TCA yn cynnwys cynllun tebyg i'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) presennol[10] sy'n golygu y bydd gwladolyn o'r DU sy'n aros dros dro yn un o wledydd yr UE (ar wyliau, i astudio, neu ar fusnes) yn parhau i allu cael gofal iechyd angenrheidiol (megis gofal brys).

Bydd angen i deithwyr o Brydain Fawr[11] fodloni gofynion newydd pan fyddant yn teithio gydag anifeiliaid anwes[12] i'r UE a Gogledd Iwerddon. Bydd angen i bobl sy'n teithio o Brydain Fawr gyda'u hanifeiliaid anwes a'u cŵn cymorth ddilyn gofynion newydd er mwyn teithio i'r UE a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys cael tystysgrif iechyd anifail o fewn 10 diwrnod i bob taith i'r UE (neu Ogledd Iwerddon)[13]. Nid yw pasbortau anifeiliaid anwes yr UE a ddyroddwyd ym Mhrydain Fawr cyn 1 Ionawr 2021 yn gymwys nawr ar gyfer teithio i'r UE neu Ogledd Iwerddon, ond maent yn dal i fod yn ddilys ar gyfer dod i Brydain Fawr neu ddychwelyd i Brydain Fawr.

Yn 2017, cafodd yr UE wared â chostau trawsrwydweithio ar gyfer unrhyw deithwyr o un o Aelod-wladwriaethau'r UE neu'r EEA sy'n defnyddio eu **ffonau symudol**[14] mewn gwladwriaeth arall. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu y gallant ddefnyddio eu lwfans domestig o funudau, negeseuon testun a data heb fynd i gostau ychwanegol.

Er bod y TCA yn cynnwys ymrwymiad i "gydweithredu ar hyrwyddo cyfraddau tryloyw a rhesymol" ar gyfer gwasanaethau trawsrwydweithio rhyngwladol, ers diwedd y cyfnod pontio nid oes unrhyw orfodaeth ar weithredwyr rhwydweithiau symudol o'r DU i warantu trawsrwydweithio heb gostau ychwanegol. Bydd angen i bobl sy'n teithio i un o wledydd yr UE neu'r EEA wirio polisi trawsrwydweithio eu gweithredwr rhwydwaith symudol cyn iddynt fynd dramor. Er bod rhai gweithredwyr rhwydweithiau symudol wedi datgan nad oes ganddynt gynlluniau ar hyn o bryd i newid eu polisïau trawsrwydweithio symudol, penderfyniad busnesau unigol yw hyn ac nid penderfyniad y llywodraeth.

### Byw yn yr UE[15]

Nid oes gan wladolion y DU hawl awtomatig nawr i fyw neu weithio[16] yn yr UE. Cyfrifoldeb pob Aelod-wladwriaeth unigol yw'r rheolau mudo ar gyfer gwladolion o drydydd gwledydd. Felly, bydd angen i wladolion y DU wirio rheolau mewnfudo gwlad unigol a gwneud cais am fisa neu drwydded breswylio yn unol â rheolau presennol y wlad honno. Dyma'r drefn hefyd ar gyfer gwladolion y DU sy'n symud o un Aelod-wladwriaeth, y mae ganddynt statws preswylio ynddi, i Aelod-wladwriaeth arall. Yn ymarferol, er bod y Cytundeb Ymadael wedi rhoi'r hawl i wladolion y DU barhau i fyw yn y wlad yr oeddent yn preswylio ynddi cyn 31 Rhagfyr 2020 a pharhau i feddu ar yr un hawliau o fewn y wlad honno, maent wedi colli'r 'hawliau rhyddid i symud' er mwyn ymgartrefu a gweithio unrhyw le yn yr UE.

9 www.gov.uk/guidance/foreign-travel-insurance

10 Nid yw pob trefniant gofal iechyd cilyddol yn parhau'n gymwys o dan y TCA, er enghraifft, mae'r llwybr triniaeth o dan y Gyfarwyddeb Drawsffiniol wedi dod i ben.

11 Dim ond i Gymru, Lloegr a'r Alban y mae hyn yn berthnasol.

12 Gweler: www.gov.uk/guidance/pet-travel-to-and-from-great-britain

13 I ganiatáu amser i deithwyr baratoi ar gyfer y gofynion dogfennol a'r gofynion iechyd newydd, ni chynhelir archwiliadau rheolaidd ar y rhai sy'n teithio gydag anifeiliaid anwes o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon tan 1 Gorffennaf 2021. Mae swyddogion yn cadw'r hawl i gynnal archwiliadau os oes amheuaeth o weithgarwch anghyfreithlon neu bryderon ynghylch lles.

14 www.gov.uk/guidance/using-your-mobile-in-eu-and-eea-countries

15 www.gov.uk/uk-nationals-living-eu

16 Ceir eithriadau cyfyngedig ar gyfer teithio at ddibenion busnes. Nodir y rhain yn y rhan ynglŷn â Gwasanaethau yn yr adran Beth mae'n ei olygu i fusnesau.

Rhaid i wladolyn o'r DU a symudodd i un o wledydd yr UE cyn 31 Rhagfyr 2020 gofrestru fel preswylydd yn y wlad honno erbyn 30 Mehefin 2021 er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i feddu ar yr hawliau hynny. Mae union delerau a gweithdrefnau gwneud cais am statws preswylydd sefydlog yn amrywio rhwng gwledydd yr UE.

Er y gall perthnasau teuluol agos barhau i ymuno â gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE (sef priod neu bartner cofrestredig, partner hirbarhaus, plant ac wyrion dibynnol, a rhieni a neiniau a theidiau dibynnol), rhaid i'r berthynas fod wedi dechrau cyn 31 Rhagfyr 2020.

Bydd angen i wladolion y DU sydd am weithio yn yr UE sicrhau bod eu cymwysterau proffesiynol yn cael eu cydnabod yn y wlad y maent yn bwriadu gweithio ynddi. Nid yw hyn yn awtomatig nawr gan nad yw'r TCA yn efelychu'r trefniant Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol a oedd gennym fel rhan o'r UE[17]. Mae'r TCA yn darparu mecanwaith i'r UE a'r DU gytuno yn nes ymlaen, fesul achos ac ar gyfer proffesiynau penodol, ar drefniadau ychwanegol ar gyfer cydnabod cymwysterau yn gilyddol ond nid oes unrhyw eglurder o ran a fydd hyn yn digwydd na phryd.

Os bydd gwladolion y DU am brynu eiddo yn yr UE, byddant nawr yn cael eu trin fel gwladolion o unrhyw drydedd wlad arall. Mae gan rai o Aelod-wladwriaethau'r UE reolau caffael eiddo gwahanol ar gyfer gwladolion yr UE a gwladolion eraill, felly efallai na fydd gwladolion y DU yn gallu prynu eiddo o gwbl neu efallai y bydd rhaid iddynt dalu am fisâu buddsoddi ychwanegol, prisiau treth stamp uwch, neu hyd yn oed atebolrwydd treth ychwanegol.

Dolenni at ragor o gyngor a chymorth.

llyw.cymru/paratoi-cymru-brexit/trafnidiaeth

www.gov.uk/visit-europe-1-january-2021

www.gov.uk/guidance/visiting-the-uk-as-an-eu-eea-or-swiss-citizen

www.gov.uk/guidance/foreign-travel-insurance

www.gov.uk/government/publications/common-travel-area-guidance

ec.europa.eu/home-affairs/what-we-do/policies/borders-and-visas/smart-borders/etias_en

ec.europa.eu/home-affairs/what-we-do/policies/borders-and-visas/visa-policy/schengen_visa_en

www.gov.uk/guidance/pet-travel-to-and-from-great-britain

www.gov.uk/guidance/using-your-mobile-in-eu-and-eea-countries

www.gov.uk/government/collections/helping-british-people-overseas-travelling-and-living-abroad

www.gov.uk/uk-nationals-living-eu

www.gov.uk/guidance/living-in-europe

www.gov.uk/guidance/get-your-eu-professional-qualification-recognised-in-the-uk

www.gov.uk/buying-europe-1-jan-2021

17 www.gov.uk/guidance/get-your-eu-professional-qualification-recognised-in-the-uk

## Prynu o'r UE[18]

Ar ddiwedd y cyfnod pontio, peidiodd rheolau'r Farchnad Sengl â bod yn gymwys ac nid yw'r DU bellach yn elwa ar drefniadau'r Undeb Tollau. Felly, mae angen i brynwyr o Gymru fod yn ymwybodol o'r trefniadau tollau wrth dderbyn nwyddau neu roddion a anfonir o'r UE. Cyn diwedd y cyfnod pontio, gallai dinasyddion y DU yn gyffredinol brynu eitemau ar-lein o'r UE heb unrhyw gost ychwanegol (ar wahân i ffioedd danfon), ond efallai y byddant bellach yn agored i daliadau ychwanegol.

Codir taliadau penodol[19] ar ystod eang o nwyddau wrth brynu o'r UE. Er enghraifft, wrth dderbyn rhodd gwerth mwy na £39, gall unigolion wynebu bil am TAW fewnforio, ac am doll dramor ar nwyddau neu roddion gwerth mwy na £135 os nad yw'r anfonwr wedi'i thalu. Os ydych yn dychwelyd o'r UE ac yn dod â nwyddau yn ôl efallai y byddwch hefyd yn wynebu ffioedd toll dramor newydd ar gynnyrch gwerth mwy na £390. Bydd angen i'r rhai sy'n anfon nwyddau o'r DU i'r UE fod yn ymwybodol o ofynion newydd o ran tollau a TAW. Rydym eisoes wedi clywed adroddiadau bod defnyddwyr yn wynebu taliadau annisgwyl a bod busnesau yn wynebu anawsterau wrth anfon nwyddau at eu cwsmeriaid.

Yn ogystal, bydd ceisio iawn os caiff hawliau defnyddwyr eu torri yn fwy cymhleth i gwsmeriaid sy'n prynu gan gwmnïau o'r UE.

## Colli Erasmus+

Tra'r oeddem yn yr UE, roedd Erasmus+ yn darparu sgiliau bywyd gwerthfawr a phrofiad rhyngwladol i fyfyrwyr a phobl ifanc gan eu helpu i ddatblygu'n bersonol, yn broffesiynol ac yn academaidd. Yn ogystal â hybu sgiliau, cyflogadwyedd a rhagolygon cyflogau cyfranogwyr, roedd y profiad rhyngwladol o astudio, gwirfoddoli neu weithio dramor yn hybu hunanhyder cyfranogwyr, gan eu helpu i dynnu sylw cyflogwyr a llwyddo yn y farchnad swyddi. Hefyd, roedd Erasmus+ yn ariannu partneriaethau strategol i gefnogi staff, gan helpu sefydliadau addysg i feithrin cysylltiadau, rhannu arferion da ac annog arloesedd ar draws y sector addysg. Yn ogystal â darparu cyllid sylweddol, roedd Erasmus+ yn cynnig manteision ehangach sylweddol gan gynnwys mwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfoethogi.

Er bod y TCA yn darparu set gyffredinol o reolau sy'n sail i gyfranogiad y DU yn rhaglenni'r UE ac er bod Erasmus+ yn agored i drydydd gwledydd, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu cymryd rhan mewn pum rhaglen yn unig ac, yn arwyddocaol i bobl ifanc Cymru a'n sefydliadau, nid yw Erasmus+ yn eu plith. Mae cynllun domestig amgen Llywodraeth y DU, rhaglen Turing, yn cael ei ariannu am flwyddyn yn unig (i ddechrau o leiaf) gyda gwariant llawer is[20] ac nid yw'n darparu llawer o'r cyfleoedd a oedd ar gael drwy Erasmus+. O dan y cynigion, bydd cyllid a chyfleoedd ar gyfer addysg bellach ac ysgolion yn cael ei leihau'n sylweddol, ac mae'r cyfleoedd i'r sector ieuenctid a chwaraeon wedi diflannu yn llwyr. Nid oes unrhyw gyllid wedi'i ddarparu ar gyfer symudedd mewnol a heb hynny mae'n amhosibl cyflawni cydbwysedd mewn cytundebau partneriaeth, sef elfen allweddol o lwyddiant rhaglen Erasmus+. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i staff deithio a dysgu o brofiadau mewn partner-wledydd wedi diflannu.

Bydd y golled yn cael ei theimlo fwyaf ymhlith y rhai o gefndiroedd dan anfantais, sy'n fwy tebygol o elwa fwyaf ar y cyfleoedd hyn, ac eto nhw yn aml sy'n ei chael anoddaf cael atynt.

18 www.gov.uk/buying-europe-1-jan-2021

19 www.royalmail.com/brexit

20 Cyhoeddwyd mai'r gyllideb ar gyfer Cynllun Turing fydd £105m ar gyfer y DU gyfan. Yn 2019, cafodd y DU €198.4m (tua £180m) gan Erasmus+, a €144.6m y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2014 a 2019.

**Mynediad i Gyfiawnder Sifil**

Cydweithredu barnwrol sifil yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli'r rhyngweithio rhwng gwahanol systemau cyfreithiol mewn sefyllfaoedd trawsffiniol. Mae cydweithredu barnwrol mewn materion sifil wedi'i ymgorffori yng nghytuniadau'r UE ac mae cyfres o reoliadau'r UE wedi ceisio helpu dinasyddion a busnesau i ddatrys rhwystrau gweinyddol neu gyfreithiol ar draws ffiniau Aelod-wladwriaethau, gan oresgyn cymhlethdod systemau cyfreithiol amrywiol neu anghydnaws. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, anghydfodau ynghylch cyflawni contractau, hawliadau ariannol gan ddinasyddion neu gwmnïau, penderfyniadau ysgariad a phenderfyniadau gwarchodaeth plant.

Mae cydweithredu barnwrol sifil yn galluogi dyfarniad a gafwyd mewn un wlad i gael ei gydnabod a'i orfodi mewn un arall, sy'n golygu y gall dinasyddion geisio iawn yn llysoedd eu gwlad eu hunain a gorfodi'r dyfarniadau hynny mewn Aelod-wladwriaeth arall. Mae hefyd yn caniatáu i bobl allu mynd at lysoedd ac awdurdodau mewn unrhyw wlad yn yr UE mor hawdd ag yn eu gwlad eu hunain.

Er bod y TCA yn ymdrin â chydweithredu barnwrol mewn materion troseddol (y sonnir amdano yn yr adran Beth mae'n ei olygu i'n diogelwch yn y ddogfen hon), nid yw'n crybwyll cydweithredu barnwrol mewn materion sifil a masnachol. Mae'r DU bellach yn cael ei thrin fel unrhyw drydedd wlad arall, gan ei gwneud yn gymhleth ceisio iawn am faterion sifil a masnachol sydd wedi codi ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i gael ailymuno â Chonfensiwn Lugano 2007 (cytuniad rhyngwladol rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE a Norwy, Gwlad yr Iâ a'r Swistir, sy'n darparu rheolau cilyddol ar awdurdodaeth a chydnabyddiaeth a gorfodaeth mewn llawer o anghydfodau trawsffiniol) yn ei rhinwedd ei hun, ond nid yw'r cais wedi'i gymeradwyo eto. Sut bynnag, nid yw'r Confensiwn hwnnw yn cynnwys yr un hawliau yn union ag a oedd gan ddinasyddion y DU o fewn yr UE.

# Beth mae'n ei olygu i fusnesau a gweithwyr Cymru

Fel rhan o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau, mae ein busnesau wedi elwa ar ryddid i symud o ran nwyddau, gwasanaethau, pobl a chyfalaf o fewn yr UE. Gwnaeth diwedd y cyfnod pontio esgor ar y newid mwyaf yn ein perthynas fasnachu mewn degawdau. Erbyn hyn, nid yw rheolau'r Farchnad Fewnol yn gymwys. Roedd y rheolau hyn yn sicrhau nad oedd rhwystrau i fasnach a bod safonau cyson rhwng gwledydd.

Mae'r TCA bellach yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein perthynas fasnachu â'r UE, ac o ganlyniad mae nifer o reolau newydd y mae angen i'n busnesau eu deall a rhwystrau y mae angen iddynt eu goresgyn.

Mae'r newidiadau yn gymhleth, a bydd y goblygiadau i fusnesau yng Nghymru yn dibynnu ar ba sector y mae busnes ynddo a natur y prosesau busnes y mae'n eu defnyddio. Mae'r canlynol yn rhoi arweiniad ar y prif newidiadau ac yn cyfeirio at ffynonellau o wybodaeth bellach. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein cyhoeddiad ar gyfer busnesau Cymru.

## Masnach mewn Nwyddau

### Tariffau, cwotâu a rheolau tarddiad

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno na fydd unrhyw **dariffau na chwotâu** ar nwyddau sy'n symud rhwng y DU a'r UE. Ar yr wyneb, mae hyn yn golygu na ddylai tariffau gael eu gosod ar nwyddau sy'n cael eu hallforio i'r UE ac na ddylai cyfyngiadau fod ar faint o nwyddau o unrhyw fath y gellir eu masnachu. Fodd bynnag, dim ond os yw'r nwyddau dan sylw yn cyfrif fel rhai 'tarddiadol' y mae'r rheolau hyn yn berthnasol. Mae'n golygu bod rhaid i nwyddau sy'n elwa ar y trefniadau hyn fod â thystiolaeth eu bod yn tarddu o'r DU neu'r UE.

Bydd nwyddau annharddiadol o'r DU neu'r UE yn agored i'r cyfraddau tariffau a osodir gan yr UE (Tariff Allanol Cyffredin) a'r DU (Tariff Byd-eang y DU).

Mae'r tariffau hyn yn amrywio rhwng cynhyrchion a gallant fod yn eithaf uchel, yn enwedig ar gyfer cynnyrch bwyd-amaeth.

Er mwyn i nwyddau gyfrif fel rhai tarddiadol, rhaid iddynt bellach fodloni'r rheolau a nodir ym mhennod *Rules of Origin* y TCA. Yn gryno, mae hyn yn golygu bod rhaid i'ch cynnyrch fod 'wedi'i gael yn gyfan gwbl' yn y DU a'r UE; bod rhaid i'ch cynnyrch gael ei gynhyrchu/gweithgynhyrchu yn y DU neu'r UE o ddeunyddiau tarddiadol yn unig, neu os ydych yn defnyddio deunyddiau annharddiadol yna rhaid ichi fodloni rheolau penodol – sef rheolau tarddiad cynnyrch-benodol (PSR).

I helpu i hwyluso'r newid at y gofynion newydd hyn o ran rheolau tarddiad, mae'r DU a'r UE wedi cytuno nad oes angen i ddatganiadau cyflenwyr ar Reolau Tarddiad fod ar waith am y 12 mis cyntaf. Bydd angen i ddatganiadau cyflenwyr fod ar gael os gofynnir amdanynt ar gyfer nwyddau sy'n cael eu mewnforio yn ystod y cyfnod hwnnw o 12 mis, ond dim ond ar ôl y 12 mis y byddai cais yn cael ei wneud.

**Yn ôl Make UK, nid oes gan chwarter cwmnïau gweithgynhyrchu (25%) unrhyw brofiad gyda datganiadau (tystysgrifau) tarddiad ond maent yn ymwybodol o'r broses, ac nid oes gan 8% arall unrhyw brofiad ac nid ydynt yn ymwybodol o beth sydd ynghlwm wrth y broses.**[21]



21 www.makeuk.org/insights/blogs/manufacturers-face-disruption-as-new-eu-uk-arrangements-kick-in



# Enghraifft ymarferol: y diwydiant Dur

Yn flaenorol, fel Aelod-wladwriaeth, nid oedd unrhyw gynnydd o ran tariffau a chwotâu a osodwyd gan yr UE fel rhan o'i fesurau diogelu yn gymwys i'r DU. Roedd hyn yn golygu y gallai'r DU fasnachu'n rhydd ar draws yr UE heb orfod poeni am dariffau neu gwotâu uwch a roddwyd ar waith gan yr UE ar gyfer cynhyrchion penodol. Fodd bynnag, fel trydedd wlad, bydd mesurau diogelu'r UE nawr yn gymwys i'r DU. Felly, bydd angen i'r DU gadw at y cwotâu a/neu dalu'r tariffau uwch.

Cyfyngiad mewnforio dros dro (er enghraifft, cwota neu gynnydd tariff) yw mesur diogelu y caniateir i wlad/rhanbarth ei osod ar gynnyrch, os yw mewnforion o'r cynnyrch hwnnw yn uchel ac y bernir eu bod yn achosi, neu'n bygwth achosi, niwed difrifol i ddiwydiant domestig sy'n cynhyrchu'r un cynnyrch neu gynnyrch tebyg. Mae mesurau diogelu yn dal i fod mewn grym er bod y TCA wedi darparu ar gyfer dim tariffau a dim cwotâu wrth fasnachu nwyddau (pan fydd rheolau tarddiad yn cael eu bodloni).

Ar hyn o bryd mae gan yr UE fesurau diogelu ar waith ar gyfer mewnforio dur yn y rhanbarth. Rhoddwyd y rhain ar waith gan yr UE mewn ymateb i wledydd eraill a oedd yn dargyfeirio dur i'r rhanbarth o ganlyniad i gynnydd uchel yr Unol Daleithiau o dariffau ar ddur. Fel rhan o'r mesurau diogelu dur hyn, mae'r UE wedi dyrannu Cwota Cyfradd Tariff (TRQ) i drydydd gwledydd ar gyfer faint o ddur y gellir ei fewnforio i'r UE ar gyfraddau tariff is (lle bo hynny'n berthnasol). Ar ôl cyrraedd y cwota hwn, bydd unrhyw ddur pellach a fewnforir i'r UE yn wynebu cyfraddau tariff llawer uwch.

Cytunodd yr UE i Gwota Cyfradd Tariff ar gyfer allforion dur y DU i'r UE o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Heb y dyraniad hwn o gwota di-dariff ar gyfer y DU, yn ôl UK Steel, gallai'r sector fod wedi wynebu bil o £80 miliwn gan dariffau Diogelu Dur yr UE yn hanner cyntaf 2021 gan y byddai'r holl allforion dur i'r UE wedi wynebu tariff o 25%. Dim ond tan fis Mehefin 2021 y mae'r cwota di-dariff yn para. Bryd hynny, caiff ei adolygu ynghyd â'r tariffau diogelu. Yn ogystal, mae allforion dur o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon yn cyfrif tuag at y cwota di-dariff hwn, sy'n golygu y byddai dur a anfonir i Ogledd Iwerddon o Gymru yn defnyddio peth o'r dyraniad cwota. Er bod croeso i'r cyfnod o ras cychwynnol, mae angen eglurder brys ar sector dur y DU ynglŷn â'r trefniadau masnachu hirdymor â'r UE.

## Beth mae'n ei olygu i fusnesau Cymru?

Erbyn hyn, ystyrir nwyddau a brynir o'r UE ac a werthir i'r UE yn fewnforion ac yn allforion. Maent yn ddarostyngedig i'r un mesurau rheoli a phrosesau cyffredinol â nwyddau a brynir o farchnadoedd tramor eraill a nwyddau a werthir iddynt. Mae hyn yn golygu y bydd angen llawer o wybodaeth ychwanegol cyn y gall busnes symud nwyddau rhwng y DU a'r UE.

Bydd angen i fusnesau sy'n masnachu â'r UE gael **rhif Adnabod a Chofrestru Gweithredwr Economaidd (EORI)** Prydain Fawr er mwyn gallu gwneud datganiadau tollau. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen rhif EORI yr UE arnynt hefyd.

Ni fydd darpariaethau'r TCA yn gymwys i fasnach mewn nwyddau rhwng yr UE a Gogledd Iwerddon. Yn hytrach, bydd darpariaethau Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon, sydd yn y Cytundeb Ymadael, yn gymwys yn y cyd-destun hwnnw.

Bydd angen gwaith papur ychwanegol ar fusnesau sy'n symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon hefyd – yn benodol 'XI EORI' – ond mae hyn yn wahanol i beth sy'n ofynnol ar gyfer gwledydd yr UE. Bydd angen i nwyddau sy'n symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ddefnyddio un o nifer o opsiynau i gael mynediad di-dariff i Ogledd Iwerddon, gan gynnwys drwy ddefnyddio TCA DU-UE neu drwy ddatgan nad oes risg ynghlwm wrth eu nwyddau. Er bod y Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr wedi'i rhoi ar waith i helpu i wneud datganiadau ar ran busnesau a'u cludwyr, mae'r broses yn un gymhleth ac yn achosi oedi o ran symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

O ran masnach rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, cytunwyd ar fesurau dros dro rhwng yr UE a'r DU i roi cyfle i addasu i'r rheolau newydd. Er bod Llywodraeth y DU wedi cytuno i derfyn penodol ar gyfer y mesurau hyn, mae cais wedi'i wneud i'r UE i estyn y mesurau er mwyn helpu i hwyluso'r cyflenwad nwyddau[22]. Yn y tymor hwy, bydd angen Tystysgrifau Iechyd Allforio ar nwyddau bwyd-amaeth yn arbennig, a bydd gwerthu rhai nwyddau, megis rhai mathau o gigoedd amrwd wedi'u prosesu (e.e. selsig) i Ogledd Iwerddon yn ogystal â'r UE, yn cael ei wahardd.

### Telerau ac Amodau Contractau

Mae angen i fusnesau sy'n masnachu ar draws ffiniau'r UE gytuno â'i gilydd pwy sy'n gyfrifol am bob cam yn y gadwyn gyflenwi gan gynnwys clirio tollau. Gelwir y rhain yn Incoterms®.

Caiff rheolau Incoterms eu creu a'u cyhoeddi gan y Siambr Fasnach Ryngwladol ac fe'u diwygir o bryd i'w gilydd. Y diwygiad diweddaraf yw Incoterms 2020 a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2020.

22 assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/957996/2020_02_02_-_Letter_ from_CDL_to_VP_Šefčovič.pdf

### Codau Nwyddau

Mae dosbarthu nwyddau'n gywir yn bwysig gan fod hyn yn pennu'r tollau a allai fod yn daladwy a'r mesurau rheoli a allai fod yn berthnasol i fewnforio neu allforio eich nwyddau. Gall dosbarthiad anghywir arwain at oedi ar y ffin, atafaelu nwyddau ac, mewn rhai achosion, gosod dirwyon a chosbau ar y busnes allforio.

### Trwyddedu / Awdurdodi Allforion a Mewnforion

Mae'r rhain yn ystyriaethau newydd pwysig i fusnesau gan fod y mesurau rheoli bellach yn berthnasol i fasnach â'r UE.

Bydd angen i fewnforwyr ac allforwyr hefyd ystyried mesurau rheoli'r UE, gan gynnwys a fydd angen trwydded ar eu cyflenwyr / cwsmeriaid i allforio / mewnforio'r nwyddau.

### Datganiadau Tollau

Mae'r rhain yn cael eu gwneud (yn electronig) ar gyfer mewnforion ac allforion – naill ai gan y masnachwr neu drwy gyfryngwr megis danfonwr nwyddau, Siambr Fasnach neu gyfryngwyr cymeradwy eraill. Mae'r rhain yn cynnwys datganiadau diogelwch.

Mae'r broses hon yn gymhleth ac mae angen meddalwedd arbenigol a phersonél hyfforddedig. Felly, mae Llywodraeth y DU wedi annog busnesau i ddefnyddio cyfryngwr priodol.

Er bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r rhan fwyaf o ddatganiadau mewnforio yn raddol, mae angen datganiadau allforio llawn o'r diwrnod cyntaf un.

### TAW

Newidiodd y rheolau ar gyfer allforion yn sylweddol ar 1 Ionawr 2021 gan y bydd y DU yn drydedd wlad at ddibenion TAW (ac eithrio nwyddau a gyflenwir i Ogledd Iwerddon ac oddi yno). Yn flaenorol, roedd gweinyddu TAW ar y cyd o fewn ardal TAW yr UE yn rhan bwysig o'r Farchnad Sengl. Roedd TAW drawsffiniol yn cael ei datgan yn yr un modd â TAW ddomestig. Roedd hynny o gymorth i gael gwared â mesurau rheoli ar y ffin rhwng Aelod-wladwriaethau, gan arbed costau a lleihau oedi. Roedd hefyd yn symleiddio gwaith gweinyddol ar gyfer danfonwyr nwyddau.

O 1 Ionawr 2021 ymlaen, bydd nwyddau a werthir i'r UE yn cael eu trin fel "allforion" o'r DU a bydd anfonebau ar gyfradd sero at ddibenion TAW. Fodd bynnag, bydd rheolau arbennig yn berthnasol i nwyddau a symudir rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, a rhwng Gogledd Iwerddon a'r UE.

Er na fydd busnesau yn gyffredinol yn codi TAW ar nwyddau sy'n cael eu hallforio i'r UE, mae'n bosibl y codir TAW yn y wlad lle mae'r cwsmer wedi'i leoli. Os felly, bydd angen cytundeb ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ei thalu[23]. At hynny, mewn 19 o 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE, mae'n ofynnol i fusnesau o drydydd gwledydd (y DU yn eu mysg bellach) sy'n gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid enwebu Cynrychiolydd Cyllidol i godi tâl a rhoi cyfrif am y TAW sy'n ddyledus (y gellir, yn gyffredinol, ei hadennill). Er bod gan holl wledydd yr UE TAW, mae'n bwysig cofio bod y gofynion a'r rhwymedigaethau yn amrywio rhwng pob un. Dylai cwmnïau o'r DU beidio â chymryd yn ganiataol bod yr hyn sy'n berthnasol mewn un wlad yn yr UE yn berthnasol ym mhob un ohonynt[24].

---

23 Mae Incoterms® yn pennu'r cyfrifoldeb am dalu TAW ym marchnad y cyrchfan – er enghraifft, os bydd cwmni yn masnachu ar delerau Cyflenwyd â'r Tollau wedi eu Talu (DDP), mae'r allforiwr o'r DU hefyd yn cael ei ystyried yn fewnforiwr UE a bydd yn gyfrifol am unrhyw dollau a TAW yn yr UE.

24 Dyma'r hysbysiad TAW perthnasol sy'n egluro cyfradd sero at ddibenion TAW ar nwyddau sy'n cael eu hallforio: VAT on goods exported from the UK (VAT Notice 703). How and when you can apply zero-rated VAT to exported goods. https://www.gov.uk/guidance/vat-on-goods-exported-from-the-uk-notice-703?step-by-step-nav=b9347000-c726-4c3c-b76a-e52b6cebb3eb

### Rheolau Tarddiad

Bydd angen i bob busnes sy'n allforio i'r UE sicrhau ei fod yn cadw at y Rheolau Tarddiad a ddisgrifir uchod. Mae'n bosibl y bydd busnesau yn y sector bwyd-amaeth neu fusnesau sy'n allforio anifeiliaid byw neu gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid wynebu mesurau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) ychwanegol. Sonnir am y rhain yn yr adran Iechydol a Ffytoiechydol.

### Dynodiadau Daearyddol (GI) (mae'r Cytundeb Ymadael yn gymwys)

Ni fydd effaith ar unrhyw enwau cynnyrch a ddiogelwyd fel Dynodiadau Daearyddol yn yr UE ar 31 Rhagfyr 2020 ac a gafodd eu cofrestru'n llwyddiannus â chynllun GI yr UE. Mae Cynllun Dynodiad Daearyddol newydd yn y DU wedi'i gyflwyno a fydd yn disodli Cynllun yr UE yn y DU[25]. Dylai enwau cynnyrch y DU a gofrestrwyd yn llwyddiannus yn yr UE erbyn 31 Rhagfyr 2020 barhau i gael eu gwarchod yn yr UE a byddant hefyd yn ymuno'n awtomatig â chynllun newydd y DU.

## Rhwystrau Technegol i Fasnach (Rheoliadau, Safonau ac Asesiadau Cydymffurfio)

Pan oedd y DU o fewn Marchnad Sengl yr UE, roedd y rhan fwyaf o nwyddau a gynhyrchwyd yn y DU a'r UE yn cael eu gweithgynhyrchu a'u masnachu o dan un set gyffredin o reolau a safonau. Os oedd y nwyddau yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol technegol yng Ngwlad A, roeddent yn bodloni'r safonau yng Ngwlad B yn awtomatig ac yn rhydd i symud rhwng y ddwy heb angen archwiliadau ychwanegol. Gan fod y DU wedi gadael Marchnad Sengl yr UE, nid yw hyn yn wir bellach. Mae gan y DU a'r UE nawr systemau rheoleiddiol annibynnol a allai olygu rhwystrau technegol ychwanegol i fasnach. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa. Darperir trosolwg manylach yn yr wybodaeth ychwanegol i fusnesau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Er bod y TCA yn ymrwymo'r DU a'r UE i ddilyn 'arferion rheoleiddio da' wrth ddatblygu rheoliadau, nid yw hyn yn atal rheoliadau'r UE a'r DU rhag gwyro oddi wrth ei gilydd yn y dyfodol. Felly, mae perygl y gallai busnesau wynebu'r angen i fodloni gwahanol ofynion rheoleiddiol a rheoliadau ar gyfer eu cynnyrch yn y dyfodol.

At hynny, hyd yn oed pan fydd gofynion rheoleiddiol yr un fath, wrth fasnachu nwyddau bydd angen i fusnesau ddilyn **gweithdrefnau asesiad cydymffurfio**. Defnyddir y rhain i roi sicrwydd bod y cynnyrch a gynhyrchir ac a gyflenwir yn bodloni'r disgwyliadau perthnasol a bennir ac sy'n ofynnol (yn gyfreithiol). Maent hefyd yn cynnwys gweithdrefnau fel profi, arolygu ac ardystio.

Mae'r TCA wedi caniatáu i rai cynhyrchion – megis teganau, dyfeisiau electronig, dyfeisiau meddygol, peiriannau, cyfarpar diogelu personol – gael eu hunanardystio gan y busnes gwreiddiol fel rhai sy'n bodloni'r gofynion cydymffurfio priodol. Mae hyn i bob pwrpas yn caniatáu i drefniadau hunanardystio presennol barhau ar gyfer masnachu nwyddau risg isel a llai rheoledig rhwng y DU a'r UE.

Rhaid i nwyddau risg uchel a mwy rheoledig ddilyn nifer o weithdrefnau asesiad cydymffurfio penodol sy'n cynnwys trydydd partïon. Mae hyn yn cynnwys Cyrff Asesu Cydymffurfiaeth (CAB), a elwir hefyd yn Gyrff Hysbysedig neu Gymeradwy yn yr UE a'r DU, neu gymeradwyaeth gan awdurdodau perthnasol megis yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) neu Asiantaeth Ardystio Cerbydau (VCA), cyn y gall y gwneuthurwr ddatgan cydymffurfiaeth.



25 www.gov.uk/guidance/protected-geographical-food-and-drink-names-uk-gi-schemes

Mae'r TCA yn sefydlu ymrwymiadau y bydd y DU a'r UE yn cadw atynt o ran gofynion gweithdrefnau asesiad cydymffurfio ac o ran eu gweithredu, fel y bydd gweithdrefnau asesiad cydymffurfio yn cael eu gweithredu'n gymesur ar sail y risgiau cysylltiedig. Fodd bynnag, nid yw ond yn sefydlu un achos penodol o gydnabyddiaeth gilyddol, sef tystysgrifau Ymarfer Gweithgynhyrchu Da (GMP) ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol. Golyga hyn na fydd angen i safleoedd sy'n cynhyrchu meddyginiaethau dynol a milfeddygol yn y DU gael eu harchwilio gan arolygwyr yr UE, nac fel arall.

O ganlyniad, pan fydd angen gweithdrefnau asesiad cydymffurfio, ni all CAB yn y DU ardystio bod cynhyrchion o'r DU yn bodloni safonau'r UE, ac ni all CAB yn yr UE ardystio bod cynhyrchion o'r UE yn bodloni safonau'r DU[26]. Bydd hyn yn newid sylweddol iawn ar gyfer gweithgynhyrchwyr yng Nghymru a gweddill y DU.

**Mae Make UK yn nodi nad yw 75% o gwmnïau wedi trosglwyddo tystysgrifau nac awdurdodiadau a ddyroddwyd gan gorff yn y DU i gorff yn un o 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE, er mwyn iddynt barhau i fasnachu â'r UE.[27]**

Ni fydd y marc CE adnabyddus yn berthnasol mwyach[28] i nwyddau sy'n cael eu gweithgynhyrchu yn y DU oni bai eu bod wedi'u hardystio gan CAB yn yr UE. Bydd marc Asesiad Cydymffurfiaeth y DU (UKCA) yn cael ei ddefnyddio i ddangos bod cynhyrchion y DU yn cydymffurfio, tra bydd y marc CE yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddangos bod cynhyrchion yr UE yn cydymffurfio.

Mae'r TCA hefyd yn nodi rhai rheolau penodol ar gyfer y nwyddau canlynol: cerbydau modur; cynhyrchion meddyginiaethol; cemegau a gwinoedd a chynhyrchion organig.

## Beth mae'n ei olygu i fusnesau Cymru?

### Asesiadau cydymffurfio

Os yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth gan gorff trydydd parti i asesu cydymffurfiaeth er mwyn bodloni gweithdrefnau asesiad cydymffurfio, bydd angen i fusnes gael ardystiad yn y DU a'r UE os yw'n dymuno gwerthu ei gynnyrch yn y ddwy farchnad gan ddefnyddio'r marciau UKCA a CE.

Fodd bynnag, mae'r cytundeb yn caniatáu i fusnesau ddefnyddio datganiadau cydymffurfiaeth cyflenwyr fel ffordd o hunanardystio bod eu nwyddau'n bodloni safonau perthnasol y DU neu'r UE. Mae'r arfer hwn wedi'i neilltuo ar gyfer cynhyrchion risg isel ac mewn meysydd lle mae'r arfer eisoes yn cael ei ganiatáu. Mae hyn yn golygu, os oedd gweithgynhyrchwyr yn gallu ymgeisio am y marc CE drwy hunanddatganiad yn y gorffennol, byddant yn gallu parhau i ymgeisio am y marc CE (er mwyn cael mynediad i farchnad yr UE a Gogledd Iwerddon) a'r marc UKCA (er mwyn cael mynediad i farchnad Prydain Fawr) drwy hunanddatganiad.

---

26 I helpu busnesau i addasu i'r newid hwn, mae'r DU wedi gweithredu i leihau amharu posibl drwy ganiatáu i'r rhan fwyaf o nwyddau â marc CE barhau i gael eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr tan 1 Ionawr 2022. Mae hyn yn cynnwys nwyddau sydd wedi'u hasesu gan CAB yn yr UE.

27 www.makeuk.org/insights/blogs/manufacturers-face-disruption-as-new-eu-uk-arrangements-kick-in



28 Bydd y marc CE yn parhau i gael ei gydnabod tan 31 Rhagfyr 2021.

**Penodol i sector**

Bydd angen i gynhyrchion risg uchel, fel cynhyrchion meddyginiaethol, gael eu hardystio gan drydydd parti neu awdurdod llywodraeth yn yr UE.

Cerbydau modur: efallai y bydd angen i nwyddau modurol yn y dyfodol fod yn destun dwy set o gymeradwyaeth/asesiadau cydymffurfio.

Cynhyrchion meddyginiaethol: ni cheir unrhyw gydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer meysydd rheoleiddio ychwanegol, fel profi fesul sypyn neu ryddhad gan berson cymwys. Cyn hyn, byddai cymeradwyaeth o brofion fesul sypyn gan berson cymwys yn y DU yn golygu y gellid allforio (gwerthu) y cynhyrchion meddyginiaethol perthnasol ym marchnad yr UE, heb orfod cael set o gymeradwyaethau ar wahân gan swyddog cyfatebol yn yr UE. Fodd bynnag, bydd angen i fusnesau yn awr ddilyn dwy broses reoleiddio ar gyfer y meysydd hynny nad ydynt yn dod o dan y TCA. Rydym eisoes yn clywed gan gwmnïau o Gymru fod y ffaith na cheir unrhyw drefniadau ar gyfer cydnabod cynhyrchion meddyginiaethol yn gilyddol yn achosi anawsterau sylweddol ar gyfer eu gweithrediadau.

Cemegion: bydd angen i fusnesau sy'n gwerthu cynnyrch yn y DU a'r UE gydymffurfio â dwy gyfundrefn gyfreithiol a rheoleiddiol ar wahân yn awr. Felly, bydd angen iddynt sicrhau bod ganddynt y prosesau a'r gweithdrefnau perthnasol ar waith i fodloni dwy set o ofynion cydymffurfio – un ar gyfer pob marchnad.

Cynhyrchion Organig: bydd yn ofynnol cael tystysgrif arolygu a roddwyd gan gorff rheoli a gydnabyddir gan y Deyrnas Unedig ar gyfer allforion i'r UE yn awr. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys holl gyrff ardystio cynhyrchion organig y DU.

Gwin: mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer trefniant ardystio mewnforion symlach gan felly leihau cost a baich ychwanegol cymaint â phosibl. Bydd angen i fusnesau gydymffurfio â'r ardystiad VI1 ond mae'r trefniadau allforio yn symleiddio'r broses. Mae hefyd yn darparu mesurau diogelu i sicrhau bod gwin sy'n symud rhwng y DU a'r UE yn parhau i fodloni disgwyliadau defnyddwyr yn y ddwy farchnad.



## Enghraifft Ymarferol: Canolfannau Dosbarthu

Fel aelod o Undeb Tollau'r UE, roedd dosbarthwyr y DU yn gallu derbyn a chludo nwyddau ledled y DU ac ym mhob un o Aelod-wladwriaethau'r UE (fel Gweriniaeth Iwerddon a Ffrainc) mor aml ag yr oedd ei angen arnynt, heb dalu tariffau na bodloni gofynion rheolau tarddiad.

Fodd bynnag, gan nad yw'r DU bellach yn rhan o Undeb Tollau'r UE, ni all dosbarthwyr y DU symud nwyddau o Brydain Fawr i'r UE bellach, nac i'r gwrthwyneb, heb gadw at y trefniadau newydd mewn perthynas â thollau, gan gynnwys talu unrhyw dollau a threthi perthnasol. I osgoi tariffau wrth fewnforio nwyddau o Brydain Fawr i'r UE, rhaid i fasnachwyr allu dangos bod eu nwyddau'n bodloni'r rheolau tarddiad, neu ddefnyddio gweithdrefn neu ryddhad tollau perthnasol (ee defnyddio'r weithdrefn dramwy, neu hawlio rhyddhad ar nwyddau sy'n cael eu dychwelyd i'r UE). Ni fydd gweithgareddau syml fel pacio a labelu yn cyfrif fel rhai sydd wedi bodloni'r rheolau tarddiad o dan y TCA.

## Mesurau Iechydol a Ffytoiechydol

Mae mesurau Iechydol a Ffytoiechydol ar waith i ddiogelu pobl, anifeiliaid a phlanhigion rhag clefydau, plâu neu halogion. Nodir yr ystyriaethau allweddol ar gyfer busnesau isod.

## Beth mae'n ei olygu i fusnesau Cymru?

Gan nad yw'r DU yn rhan o Farchnad Sengl yr UE mwyach, bydd planhigion a Chynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid yn wynebu archwiliadau mewnforio newydd pan fyddant yn cael eu hallforio i'r UE.

### Mewnforio ac Allforio Anifeiliaid Byw

Bydd angen i fusnesau (neu unigolion) sy'n allforio anifeiliaid byw feddu ar y Dystysgrif Iechyd Allforio (EHC) berthnasol yn awr, a bydd angen iddynt gofrestru fel 'Sefydliad Cymeradwy'. Ceir 1,900 o Dystysgrifau Iechyd Allforio enghreifftiol ar gyfer gwahanol gynhyrchion a chyrchfannau.

Bydd angen i gymdeithas brîd sy'n dymuno masnachu anifeiliaid magu pur neu gynhyrchion egino gyda sefydliadau yn yr UE ar yr un telerau ag o'r blaen gael eu rhestru fel 'corff bridio trydedd wlad' gan yr UE. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd eisoes wedi caniatáu i'r rhan fwyaf o lyfrau gre Cymreig gael Rhestriad Trydedd Wlad. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r rheini sy'n dymuno masnachu gyda'r UE yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael Rhestriad Trydedd Wlad ar hyn o bryd.

Ar wahân i gael Rhestriad Trydedd Wlad, bydd angen i unigolion neu fusnesau sy'n symud ceffylau ar draws ffiniau feddu ar waith papur ychwanegol a bydd angen iddynt gael rhagor o wiriadau milfeddygol hefyd. Yn ogystal â hyn, rhaid i bob ceffyl gael microsglodyn erbyn 12 Chwefror 2021.

### Mewnforio ac allforio bwyd

Dylai pob busnes sy'n allforio nwyddau bwyd sy'n cynnwys 'cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid' geisio sicrhau eu bod wedi'u cofrestru fel 'Sefydliad Cymeradwy'.

Nid yw'r UE yn cydnabod cyfwerthedd safonau Iechydol a Ffytoiechydol y DU felly bydd busnesau sy'n allforio cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid yn ddarostyngedig i wiriadau gan yr UE a gallent wynebu oedi ar y ffin.

Bydd busnesau sy'n mewnforio cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid hefyd yn gweld y bydd nwyddau o'r fath yn ddarostyngedig i wiriadau yn y DU. Fodd bynnag, fesul cam ac yn unol â'r risg y cyflwynir archwiliadau ar Ffin y DU a chynhelir gwiriadau ar nwyddau sydd â llai o risg yn gysylltiedig â nhw yn llai aml. Mae eglurhad manylach o'r broses o gyflwyno archwiliadau ar ffin y DU ar gael yn y ddogfen UK Border Operating Model[29].

Bydd yn ofynnol bellach bod gan bob cynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid a gaiff ei fewnforio neu ei allforio Dystysgrif Iechyd Allforio berthnasol, y mae'n rhaid i Filfeddyg neu Arolygydd Swyddogol ei chymeradwyo.



29 www.gov.uk/government/publications/the-border-operating-model

Gan fod y DU yn cael ei thrin fel 'trydedd wlad' gan yr UE erbyn hyn, mae nifer o allforion y DU yn ddarostyngedig i waharddiadau a chyfyngiadau. Mae hyn yn golygu na fydd rhai cynhyrchion yn gymwys i'w hallforio i'r UE bellach. Rhaid i fusnesau'r DU asesu a fydd eu cynnyrch yn ddarostyngedig i waharddiadau a chyfyngiadau a chynllunio yn unol â hynny. Mae'r cyfyngiadau hyn yn dal i gael eu negodi ar hyn o bryd a bydd Llywodraeth y DU yn rhyddhau'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn maes o law[30].

### Masnach mewn planhigion ac iechyd planhigion

Dylid parhau i gyflwyno ceisiadau ar gyfer cymeradwyaethau sylweddau actif, awdurdodiadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion a Lefelau Gweddillion Uchaf newydd ym Mhrydain Fawr i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn yr un fformat. Rhaid i sylwedd actif newydd gael ei gymeradwyo ym Mhrydain Fawr cyn y gellir ei gynnwys mewn unrhyw Gynnyrch Diogelu Planhigion a awdurdodir i'w ddefnyddio ym Mhrydain Fawr[31].

Bydd angen i ymgeiswyr wneud ceisiadau ar wahân o dan gyfundrefnau Prydain Fawr a'r UE i gael mynediad i'r ddwy farchnad. Bydd awdurdodiadau newydd a roddir ar ôl 31 Rhagfyr 2020 yn nodi a ydynt yn ddilys ym Mhrydain Fawr neu yng Ngogledd Iwerddon yn unig, neu yn y ddau le.

### Masnachu â Gogledd Iwerddon

Bydd archfarchnadoedd a chyflenwyr dibynadwy, sydd wedi'u nodi ar restr y cytunwyd arni gyda'r UE, yn elwa ar 'gyfnod o ras' tan 1 Ebrill 2021 pan na fydd raid iddynt ddarparu gwaith papur mewn perthynas ag agweddau Iechydol a Ffytoiechydol (ee Tystysgrifau Iechyd Allforio) wrth symud nwyddau bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd rheolau'r DU a'r UE yn parhau i fod yn gyson. Bydd hyn yn golygu y gallai nwyddau a waherddir yn yr adran ar waharddiadau a chyfyngiadau o'r TCA barhau i symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon am dri mis.

Mae trefniadau ar wahân ar gyfer cynhyrchion cig sy'n ddarostyngedig i gyfnod o ras o chwe mis tan 1 Gorffennaf 2021. Unwaith eto, dim ond i archfarchnadoedd y mae'r trefniadau hyn yn berthnasol. Fel y nodir uchod, gofynnodd Llywodraeth y DU i'r UE ymestyn y cyfnodau o ras hyn.

**Ni fydd** y cyfnodau o ras mewn perthynas â chynhyrchion gwaharddedig neu gyfyngedig a Thystysgrifau Iechyd Allforio yn berthnasol ar gyfer nwyddau sy'n cael eu cludo i Ogledd Iwerddon drwy Gaergybi a Gweriniaeth Iwerddon.

30 Ewch i wefan Gov.UK i gael yr wybodaeth ddiweddaraf

31 www.hse.gov.uk/pesticides/pesticides-registration/general/introduction.htm

# Cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Allforwyr

Cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Allforio ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Cynllun yn nodi'r camau ymarferol yr ydym yn eu cymryd i gefnogi allforwyr o Gymru, gan gynnwys sut y byddwn yn eu helpu i addasu i'r heriau a ddaw gyda phob perthynas masnachu newydd rhyngddynt â'r UE, ac i ymateb i'r heriau hynny. Rydym wedi cynyddu ein capasiti i gefnogi busnesau i ymateb i'r heriau a ddaeth yn sgil cyfnod Pontio'r UE ac rydym wedi symleiddio ein prosesau er mwyn sicrhau y gellir darparu cymorth yn gyflym ac yn effeithiol.

'Y daith allforio' ar gyfer busnesau yng Nghymru sy'n ganolog i'r cymorth a gynigir gennym ac mae wedi'i deilwra er mwyn bod yn addas ar gyfer allforwyr o bob math. Gan ddechrau gydag ymgyrch i ysbrydoli busnesau i ddechrau allforio neu i dyfu eu hallforion, mae gennym gyfres o ddigwyddiadau a gweminarau ar-lein sy'n tynnu sylw at fanteision allforio a chodi ymwybyddiaeth o wahanol farchnadoedd a chyfleoedd.

Ar gyfer cam nesaf y daith, mae ein cymorth yn canolbwyntio ar feithrin gallu drwy gefnogi busnesau i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd i allforio'n llwyddiannus. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Fusnesau Bach a Chanolig sy'n cael mynediad i farchnadoedd newydd ac i'r busnesau hynny sydd ag iddynt botensial allforio na fanteisiwyd arno yn y gorffennol. Mae gwasanaethau yn cynnwys: cyngor a chymorth un i un wedi'u teilwra'n benodol; hyb allforio gyda mynediad i adroddiadau ar y farchnad; cyfrifydd tariffau ac amrywiaeth o adnoddau eraill; gweminarau sy'n rhoi cyngor ac arweiniad; cymorth ariannol ar gyfer hyfforddi a datblygu.

Ar gyfer busnesau 'sy'n barod i allforio' mae gennym amrediad llawn o gymorth i helpu busnesau i ddod o hyd i gwsmeriaid mewn marchnadoedd tramor gan ddefnyddio rhwydwaith byd-eang o bartneriaid a chysylltiadau, gan gynnwys Adran Masnach Ryngwladol Llywodraeth y DU a'n swyddfeydd tramor ni ein hunain.

Rydym hefyd yn cynorthwyo busnesau i gyrraedd y farchnad. Mae llawer o ddigwyddiadau a theithiau masnach wedi cael eu canslo neu eu gohirio o ganlyniad i'r pandemig, ond rydym wedi datblygu rhaglen o ddigwyddiadau masnach ar-lein i sicrhau bod cwmnïau o Gymru yn gallu cael mynediad i farchnadoedd a dangos eu cynnyrch i gwsmeriaid yn rhithiol.

Cysylltwch â: 03000 6 03000 / https://businesswales.gov.wales/cy/cysylltwch-a-ni

Yr Hyb Allforio: https://export.businesswales.gov.wales/en



## Masnach mewn gwasanaethau

Nid yw'r DU bellach yn rhan o Farchnad Sengl yr UE ac mae hyn yn golygu y bydd cyflenwyr gwasanaethau'r DU yn colli eu hawl awtomatig i gynnig gwasanaethau ar draws yr UE. Caniateir mynediad o hyd ond bydd gan y cyflenwyr lai o hawliau na chystadleuydd o un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae'n rhaid i fusnesau sy'n allforio gwasanaethau i'r UE fodloni rheolau ar gyfer trydydd gwledydd a wneir gan bob Aelod-wladwriaeth – sy'n golygu bod angen mynd i'r afael ag hyd at 27 o wahanol setiau o reoliadau.

Hyd yn oed pan fo darpariaethau cadarnhaol wedi'u cynnwys yn y TCA, mae'r darpariaethau hyn yn ddarostyngedig i eithriadau sylweddol a amlinellir yn erthyglau'r TCA ac yn yr Atodiadau.

Yn ogystal â hynny, mae nifer o gytundebau ar wahân rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd / y Cytundeb Masnach Rydd Ewropeaidd (Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy) a rhwng y DU a'r Swistir sy'n ymwneud â masnach mewn nwyddau, Hawliau Dinasyddion a Physgodfeydd ac ar gyfer pobl sy'n croesi ffiniau am resymau busnes tymor byr, a elwir yn symudedd.

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r prif newidiadau sy'n cwmpasu: cyfwerthedd ariannol; masnach mewn gwasanaethau; cymwysterau proffesiynol a buddsoddi uniongyrchol o dramor. Darperir dadansoddiad llawnach gan gynnwys manylion ar gyfer sectorau penodol yn yr wybodaeth ychwanegol i fusnesau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

### Cyfwerthedd ariannol

Mae'n bwysig nodi nad yw'r cytundeb yn cynnwys 'pasbortio' ar gyfer gwasanaethau ariannol a arferai fod ar gael o dan delerau Marchnad Sengl yr UE. Roedd 'pasbortio' yn caniatáu i gwmnïau a awdurdodwyd mewn un o Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd gynnal busnes mewn Aelod-wladwriaeth arall o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn seiliedig ar awdurdodiad eu Haelod-wladwriaeth 'cartref'. Nid yw'n bosibl 'pasbortio' rhwng y DU a'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd bellach.

Mae hyn yn golygu nad oes gan y sector ariannol unrhyw sicrwydd ynghylch trefniadau hirdymor ar gyfer masnachu rhwng y DU a'r UE. Bydd penderfyniadau ar gael mynediad i farchnadoedd ei gilydd mewn gwasanaethau ariannol yn cael eu gwneud ar y sail bod pob ochr yn datgan ar ei ben ei hun ei fod yn ystyried bod systemau rheoleiddio'r ochr arall yn gyfwerth. Gelwir hyn yn benderfyniad cyfwerthedd.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i gwmnïau gwasanaethau ariannol nad oes ganddynt bresenoldeb eisoes yn yr UE (drwy is-gwmni neu gwmni cysylltiedig). Yn yr achos hwn, gallai ansicrwydd ynghylch penderfyniadau cyfwerthedd ariannol, sy'n gallu newid ar fyr rybudd, gael effaith ddifrifol ar y fasnach mewn gwasanaethau ariannol rhwng y DU-UE.

Adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, roedd yr UE wedi rhoi cyfwerthedd sy'n gyfyngedig o ran amser i'r DU mewn perthynas â dau o'r mwy neu lai 40 o wahanol feysydd ariannol lle y mae Llywodraeth y DU yn ceisio mynediad i'r farchnad. Nid yw'r UE wedi rhoi unrhyw arwydd pellach a fydd yn gwneud rhagor o benderfyniadau cyfwerthedd, a phryd y gallai wneud hynny.

Hyd yn oed pe bai'r UE yn dyfarnu'r lefel uchaf bosibl o gyfwerthedd ariannol i'r DU, byddai hyn yn dal i eithrio llawer o weithgareddau bancio ac ariannol craidd, ee derbyn blaendaliadau, darparu gwasanaethau buddsoddi i fuddsoddwyr manwerthu (nad ydynt yn broffesiynol) neu wasanaethau talu.

### Y Fasnach Drawsffiniol mewn Gwasanaethau

Fel yn achos y rhan fwyaf o Gytundebau Masnach Rydd sy'n cynnwys gwasanaethau, defnyddir y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau gan Sefydliad Masnach y Byd fel llinell sylfaen yn y TCA. Mae'r TCA wedi mynd y tu hwnt i'r llinell sylfaen ofynnol hon o ran lleihau rhwystrau i fasnachu mewn sectorau fel gwasanaethau proffesiynol a busnes, gwasanaethau ariannol, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau trafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau cilyddol i eithrio cyfyngiadau fel profion o angen economaidd, cyfyngiadau ar ffurfiau corfforaethol a chapiau ar ecwiti tramor.

Mae'r TCA yn cynnwys ymrwymiadau ar driniaeth nad yw'n gwahaniaethu rhwng cyflenwyr gwasanaethau a buddsoddwyr y DU a'r UE. Mae hyn yn golygu y dylid trin cyflenwr gwasanaethau o'r DU sy'n gweithio mewn Aelod-wladwriaeth o'r UE yn yr un modd â chyflenwr gwasanaethau o'r Aelod-wladwriaeth honno (ar yr amod bod y busnes yn bodloni'r un safonau a gofynion rheoleiddio). Mae hefyd yn berthnasol yn yr un modd i gyflenwyr gwasanaethau o'r UE sy'n darparu gwasanaethau yn y DU.

Mae'r TCA wedi sicrhau cytundeb i ganiatáu i gyfreithwyr o'r naill barti a'r llall ddarparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n gysylltiedig yn benodol ag arfer cyfraith ryngwladol gyhoeddus a chyfraith y wlad lle y maent wedi'u hawdurdodi o dan eu teitl "cartref".

## Beth mae'n ei olygu i fusnesau Cymru?

Er bod y TCA yn darparu rhai egwyddorion a rheolau cyffredinol ar y fasnach mewn gwasanaethau, yn sgil ymadael â Marchnad Sengl yr UE mae rheoliadau yr Aelod-wladwriaethau unigol hefyd yn gymwys yn awr yn ogystal â rhai y TCA. Mae rheoliadau'r Aelod-wladwriaethau, sy'n berthnasol yn ddomestig ym mhob gwladwriaeth, yn set arall o reolau y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau eu bodloni er mwyn gallu masnachu mewn modd sy'n cydymffurfio â phob un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Nid yw'r rheoliadau domestig hyn yn gyson ar draws pob Aelod-wladwriaeth ac maent yn gallu bod yn fwy cyfyngol eu natur na'r egwyddorion a'r rheolau cyffredinol a nodir yn y TCA.

### Mynediad ac Arhosiad Dros Dro at Ddibenion Busnes[32,33]

O 1 Ionawr 2021 ymlaen, nid oes gan wladolion y DU hawl awtomatig mwyach i weithio mewn Aelod-wladwriaeth o'r UE.[34] Mae'r TCA yn darparu ar gyfer mynediad ac arhosiad dros dro unigolion sy'n cynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â busnes rhwng y DU a'r UE o dan rai amodau. Mae pob categori o ymwelydd busnes yn ddarostyngedig i set wahanol o ddarpariaethau yn y TCA.

Er mwyn teithio i Aelod-wladwriaeth at ddibenion busnes dros dro, bydd rhaid bod unigolyn yn dod o dan un o'r categorïau canlynol o ymwelydd busnes:

- yn cynnal ymweliad busnes â'r UE ar gyfer sefydlu menter
- yn gyflenwr gwasanaeth dan gontract
- yn weithiwr proffesiynol annibynnol
- yn drosglwyddai mewnol mewn corfforaeth
- yn ymwelydd busnes tymor byr

32 Nid yw'r adran hon yn gymwys i Weriniaeth Iwerddon. Gall gwladolion y DU a dinasyddion Iwerddon barhau i fyw, gweithio a symud rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r DU o ganlyniad i'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng y DU ac Iwerddon.

33 www.gov.uk/visit-europe-1-january-2021/business-travel-extra-requirements

34 I gael rhagor o fanylion ewch i'r adran "Byw yn yr UE" o'r bennod "Beth mae'n ei olygu i bobl sy'n byw yng Nghymru".

Mae'r UE a'r DU wedi cytuno i beidio â gorfodi trwyddedau gwaith ar ymwelwyr busnes sydd wrthi'n sefydlu busnes er bod hyn hefyd yn ddarostyngedig i eithriadau yn yr atodiadau i TCA – gan olygu y gallai'r rheolau cenedlaethol sy'n berthnasol i Aelod-wladwriaethau unigol amrywio rywfaint. Mae'r TCA hefyd yn cynnwys mesurau ar dryloywder wrth wneud cais am fisa neu drwydded waith a mesurau hwyluso gweithdrefnol (ymgeiswyr am fisa a thrwyddedau gwaith).

Mae'r TCA yn caniatáu i rai gweithgareddau busnes gael eu cynnal gan ymwelwyr busnes tymor byr heb drwydded waith, hyd at uchafswm o 90 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o chwe mis. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel mynd i gynadleddau neu gyfarfodydd mewnol cwmni. Mae teithio at ddibenion hamdden hefyd yn cyfrif tuag at y terfyn o 90 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, gan fod rhai eithriadau yn yr atodiadau i'r TCA, bydd angen gwirio union amodau mynediad yr Aelod-wladwriaeth dan sylw[35].

## Beth mae'n ei olygu i fusnesau Cymru?

Mae **ymweliadau busnes at ddibenion sefydlu** yn golygu y gall gwladolion y DU a'r UE sy'n gweithio mewn swydd uwch deithio i diriogaethau ei gilydd er mwyn sefydlu menter yn y diriogaeth honno (er enghraifft, i gwblhau gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, recriwtio staff etc) ar yr amod nad ydynt yn cynnig nac yn darparu gwasanaethau nac yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd economaidd ar wahân i'r hyn sy'n ofynnol at ddibenion sefydlu'r fenter honno yn ystod eu hymweliad ac nad ydynt yn cael cydnabyddiaeth ariannol o ffynhonnell sydd wedi'i lleoli yn y diriogaeth honno. Ceir rhai cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r hyn a amlinellir yn Atodiad SERVIN-3 o'r TCA mewn perthynas ag Awstria, y Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Slofacia a Cyprus.

Mae **trosglwyddai o fewn cwmni** yn cynnwys trosglwyddiadau dros dro o weithwyr neu bartneriaid mewn endid busnes sydd wedi'i leoli yn y DU i gangen arall mewn Aelod-wladwriaeth. Er mwyn cymhwyso, rhaid i'r unigolyn fod naill ai'n rheolwr, yn gyflogai arbenigol neu'n hyfforddai. Rhaid bod y rheolwyr a'r arbenigwyr naill ai wedi bod yn gyflogai i endid busnes yn y DU, neu'n bartner ynddo, am gyfnod o 12 mis cyn y dyddiad trosglwyddo. Ar gyfer cyflogeion dan hyfforddiant, y cyfnod perthnasol yw chwe mis. Uchafswm hyd y trosglwyddiad yw tair blynedd i reolwyr ac arbenigwyr a hyd at flwyddyn i hyfforddeion.

Mae **cyflenwyr gwasanaethau o dan gontract** yn cynnwys cyflogeion endid busnes yn y DU sydd wedi llofnodi contract i gyflenwi gwasanaethau i ddefnyddiwr mewn Aelod-wladwriaeth. Rhaid i'r contract gwasanaeth yr ymrwymir iddo gan y cyflogwr fod am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf a rhaid ei fod yn ofynnol o dan y contract i'r cyflogai weithio yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth dros dro. Ceir amodau cymhwystra gofynnol y mae'n rhaid i unrhyw gyflogai sy'n defnyddio'r hawl hon eu bodloni. Er enghraifft, rhaid bod gan y cyflogai o leiaf tair blynedd o brofiad proffesiynol a chymhwyster lefel gradd perthnasol (neu gymhwyster o lefel gyfatebol).

Mae **gweithwyr proffesiynol annibynnol** yn cynnwys gweithwyr proffesiynol hunangyflogedig sydd wedi'u sefydlu yn y DU. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid bod yr unigolyn wedi cwblhau contract i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddiwr mewn Aelod-wladwriaeth am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf sy'n gofyn am ei bresenoldeb yn y diriogaeth honno dros dro. Rhaid nad yw wedi'i sefydlu eisoes yn yr Aelod-wladwriaeth honno a cheir amodau cymhwystra gofynnol eraill y mae'n rhaid eu bodloni, er enghraifft chwe blynedd o brofiad proffesiynol a chymhwyster lefel gradd perthnasol (neu gymhwyster o lefel gyfatebol).



35 Rhagor o wybodaeth: www.gov.uk/guidance/structuring-your-business-from-1-january-2021; www.gov.uk/government/collections/providing-services-to-eea-and-efta-countries-after-eu-exit

Mae'n bwysig nodi bod nifer o Aelod-wladwriaethau wedi gosod cyfyngiadau ychwanegol ar yr amodau mynediad yn yr atodiadau i'r TCA. Bydd yn bwysig bod busnesau, cyflogeion a'r hunangyflogedig yn gwirio'r union reolau sy'n berthnasol i'r Aelod-wladwriaeth dan sylw cyn gwneud unrhyw drefniadau.

Mae **ymweliadau busnes tymor byr** wedi'u cyfyngu o dan y TCA i weithgareddau penodol y gellir ymgymryd â hwy yn ystod ymweliadau o hyd at 90 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o chwe mis heb drwydded waith. Gall teithiau hamdden personol hefyd gyfrif tuag at y terfyn o 90 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, gan fod y dull a ddilynir gan Aelod-wladwriaethau unigol yn amrywio rywfaint, bydd angen gwirio'r union ofynion mynediad ar gyfer y wlad benodol dan sylw. Er enghraifft, mewn rhai Aelod-wladwriaethau efallai y bydd angen trwydded a/neu brawf anghenion economaidd ar gyfer rhai gweithgareddau.

Er mwyn elwa ar deithio am ddim ar gyfer ymweliadau busnes tymor byr, bydd angen i fusnesau ac unigolion:

- Olrhain pwy sy'n mynd ble
- Gwirio'r amodau mynediad sy'n berthnasol i'r Aelod-wladwriaethau y cynigir ymweld â nhw
- Olrhain am ba hyd y maent yn aros (gan nodi y bydd twristiaeth yn cyfrif yn y 90 o ddiwrnodau o fewn lwfans o chwe mis hyd yn oed os bydd teithiau dilynol at ddibenion busnes)
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau y cynigir ymgymryd â hwy yn gyson â'r gweithgareddau a ganiateir sy'n berthnasol i ymwelwyr busnes tymor byr yn yr Aelod-wladwriaeth honno
- Cofnodi pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw tra eu bod yno
- Neilltuo amser ac arian i sicrhau'r ceisiadau perthnasol am fisa mewn sefyllfaoedd lle nad yw natur a/neu hyd yr ymweliad busnes arfaethedig yn bodloni gofynion ymweliad busnes tymor byr

Mae dirwyon, gwrthod mynediad neu wrthod ceisiadau am fisa yn y dyfodol ymhlith y cosbau posibl am fynd yn groes i'r rheolau.

Dylai unigolion a busnesau chwilio am wybodaeth ar wefan Llywodraeth y DU ac ymgynghori ag unrhyw sefydliad masnach neu broffesiwn cysylltiedig. Gall cyfyngiadau a gofynion mynediad gwahanol yn y 27 o Aelod-wladwriaethau newid ar fyr rybudd, er bod ymrwymiad am o leiaf dri mis o rybudd ar gyfer newidiadau i fisâu.

**Mae busnesau yng Nghymru wedi adrodd am broblemau o ran cael trwyddedau gwaith a fisâu ar gyfer gwaith ymgynghori yn yr UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ers diwedd y cyfnod pontio. Bydd yr amser ychwanegol sydd ei angen i wneud cais am fisâu yn cael effaith andwyol sylweddol ar ddarparu gwaith gwasanaethau.**

## Cymwysterau proffesiynol

Tra ei bod yn aelod o'r UE, roedd gwladolion y DU a dinasyddion yr UE â chanddynt gymhwyster, fel meddygon, nyrsys, ymarferwyr deintyddol, fferyllwyr, milfeddygon, cyfreithwyr, penseiri neu beirianwyr o'r DU yn elwa ar gyfundrefn gydnabyddiaeth ddirwystr

yng ngwledydd eraill yr UE, gan gynnwys cydnabyddiaeth awtomatig i rai proffesiynau[36]. Roedd y gyfundrefn hon yn darparu llwybr ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a oedd yn cefnogi gallu gweithwyr proffesiynol i gyflenwi gwasanaethau ledled yr UE ac roedd yn rhan annatod o'r hawl i gael symud yn rhydd rhwng gwledydd. Ni fydd hyn yn wir mwyach.

Nid yw'r TCA yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau ffurfiol gan y DU a'r UE i gydnabod cymwysterau proffesiynol a ddyfarnwyd gan gyrff yn y diriogaeth arall. Fodd bynnag, mae'r TCA yn cynnwys proses fframwaith er mwyn gallu cydnabod cymwysterau proffesiynol yn y dyfodol – fel yr amlinellir isod.

Gyda'r TCA, mae gwladolion y DU yn dal i allu cyflenwi gwasanaethau ar draws yr UE. Fodd bynnag, byddant yn ddarostyngedig i reoliadau domestig Aelod-wladwriaethau unigol a allai olygu y bydd yn anos cael cydnabyddiaeth am gymwysterau a gafwyd yn y DU neu, mewn rhai achosion, gallai hyn eu hatal rhag ymarfer eu proffesiwn mewn rhai o Aelod-wladwriaethau'r UE.

Mae'r TCA wedi sefydlu fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol drwy Gyngor Partneriaeth y DU – UE[37]. Mae'r cytundeb hwn yn caniatáu (er nad yw'n ei gwneud yn ofynnol) i'r DU ac Aelod-wladwriaethau'r UE gyflwyno argymhellion ar y cyd yn y dyfodol i'r Cyngor Partneriaeth ar gyfer trefniadau sy'n benodol i broffesiwn. Gall y trefniadau hyn ddarparu llwybrau i weithwyr proffesiynol yn y DU sicrhau cydnabyddiaeth o'u cymwysterau yn awdurdodaeth Aelod-wladwriaeth o'r UE, ac i'r gwrthwyneb.

Mae'r Cytundeb Ymadael yn diogelu trefniadau ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol ar gyfer dinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE, neu ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU, cyn diwedd y cyfnod pontio (yn amodol ar gyfyngiadau). Nid yw'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddinasyddion y DU sy'n symud i'r UE neu ddinasyddion yr UE sy'n symud i'r DU ar ôl 1 Ionawr 2021. Mae'r Cytundeb Ymadael a'r Ardal Deithio Gyffredin hefyd yn diogelu hawliau dinasyddion y DU i deithio a gweithio yn Iwerddon (yn y Weriniaeth ac yng Ngogledd Iwerddon), ac i'r gwrthwyneb.

---

**Mae'r diffyg cytundeb â'r UE ynghylch Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol (MRPQ) wedi arwain at rai effeithiau uniongyrchol mewn perthynas â phroffesiynau tra rheoleiddiedig, ee y gyfraith, cyfrifyddiaeth, archwilwyr ac yn ehangach mewn sectorau fel gwyddor bywyd.**

## Beth mae'n ei olygu i fusnesau Cymru?

Os yw gweithiwr proffesiynol hunangyflogedig neu weithiwr proffesiynol cymwys mewn busnes yn dymuno gweithio yn yr UE bydd angen i'w gymhwyster gael ei gydnabod gan y rheoleiddiwr priodol ar gyfer y proffesiwn ym mhob gwlad berthnasol. Gallai hyn olygu y bydd rhaid i weithwyr basio rhagor o arholiadau proffesiynol a/neu y bydd angen iddynt ddangos pa brofiad sydd ganddynt o'r gwaith.

36 Cyn ymadael â'r UE, roedd y DU yn rhan o system ar gyfer cydnabod cymwysterau yn gilyddol (MRPQ) ar gyfer yr UE gyfan o dan Gyfarwyddeb MRPQ yr UE (2005/36/EC). Roedd y Gyfarwyddeb yn galluogi nifer eang o weithwyr proffesiynol i elwa ar system ddirwystr o gydnabyddiaeth a oedd yn eu galluogi i weithio mewn swydd broffesiynol ar draws yr UE.

37 Corff newydd a sefydlwyd gan y TCA



# Enghraifft Ymarferol: Y Diwydiant Fferyllol – Profi Fesul Sypyn a Phersonau Cymwys ar gyfer Gwyliadwriaeth Ffarmacolegol (QPPV)

Cyn i'r DU ymadael â'r UE, roedd Person Cymwys ar gyfer Gwyliadwriaeth Ffarmacolegol (QPPV) wedi'i leoli yn y DU yn gallu darparu ardystiad ar gyfer profion fesul sypyn yn achos rhai cynhyrchion fferyllol er mwyn caniatáu iddynt gael eu cludo'n uniongyrchol o safleoedd yn y DU i Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Fodd bynnag, gan na cheir trefniadau ar gyfer cydnabod mesurau profi fesul sypyn a rhyddhad QPPV yn gilyddol yn y TCA, nid yw QPPV y DU yn cael eu cydnabod gan yr UE bellach (o dan ddeddfwriaeth yr UE, rhaid i QPPV breswylio a chyflawni ei dasgau mewn Aelod-wladwriaeth, ac nid yw hyn yn cynnwys y DU bellach). Mae hyn yn golygu, er bod rhai cynhyrchion fferyllol eisoes wedi derbyn yr ardystiad priodol gan QPPV y DU, bydd yn ofynnol i'r un cynhyrchion gael ardystiad arall gan QPPV yr UE, er mwyn cael mynediad i farchnad yr UE. O ganlyniad i'r cynnydd hwn mewn biwrocratiaeth, mae'n bosibl y bydd busnesau fferyllol y DU yn dod yn llai cystadleuol o gymharu â'u cymheiriaid yn yr UE.




# Enghraifft Ymarferol: Addysg a Hyfforddiant

**Y Sector addysg**

Mae'r sector addysg yng Nghymru werth £4.143m GVA ac mae'n cyflogi 124,000 o bobl [Ffynhonnell: StatsCymru]. Mae'r TCA yn effeithio ar y sector addysg yng Nghymru ar draws nifer o feysydd – y fasnach drawsffiniol mewn gwasanaethau, cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol a darpariaethau modd 4 (bodau dynol yn symud) sy'n effeithio ar bob rhan o'r sector hwn. Bydd eiddo digidol a deallusol yn effeithio ar rai is-sectorau addysg a gall fod effaith anuniongyrchol drwy erthyglau ar gymorthdaliadau a chystadleuaeth yn y cytundeb ar wasanaethau addysgol y sector preifat.

Yn gyffredinol, mae'r TCA wedi arwain at faich gweinyddol ychwanegol sylweddol ar sefydliadau yn y sector hwn.

**Y Sector Addysg Uwch**

Bydd effeithiau'r TCA yn cael eu teimlo'n uniongyrchol drwy'r gwasanaethau hynny a nodwyd fel allforion addysg ac yn anuniongyrchol drwy newidiadau i reolau mewnfudo, gofynion fisa etc.

**Gwasanaethau hyfforddi'r sector preifat – Modd 5**

Rydym yn ymwybodol o broblemau i ddarparwyr gwasanaethau hyfforddi o Gymru wrth iddynt ddarparu gwasanaeth i'r UE. Mae oedi sylweddol, gyda llwythi (hyd yn oed llwythi bach) o ddeunyddiau ategol yn cael eu hatal ar ffin y DU. Pan fydd llwythi'n cyrraedd pen y daith, nid ydynt yn cael eu rhyddhau oni bai bod cynrychiolwyr y cwrs neu'r cyflogwyr yn talu costau ychwanegol. O ganlyniad, mae cwmnïau wedi penderfynu dod o hyd i lawlyfrau hyfforddi a'u cludo o ardaloedd yn yr UE ei hun yn hytrach nag o ochr draw'r ffin yn y DU hyd nes y gellir rhagweld.

Mae'r mater modd 5 hwn yn faes ffocws pwysig i Gymru gan mai allforio nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth sydd dan sylw – sef, yn yr achos hwn, wasanaethau logisteg trawsffiniol sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant yn yr UE.

## Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor yng Nghymru

Mae buddsoddi uniongyrchol o dramor yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru. Mae'r ehangu a welwyd ymhlith cwmnïau a fodolai eisoes, a'r ffaith bod busnesau newydd wedi ymsefydlu yng Nghymru a'r busnes newydd sydd wedi'i gaffael ar draws pob sector – o uwch-weithgynhyrchu i wyddorau bywyd – wedi helpu i feithrin amgylchedd buddsoddi cadarnhaol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cyn refferendwm yr UE yn 2016, cyrhaeddodd nifer y prosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor a gofnodwyd yng Nghymru y lefelau uchaf erioed[38]. Lleihaodd hyder buddsoddwr cyffredinol yn y DU ar ôl refferendwm 2016, fodd bynnag. Ysgogwyd hynny'n bennaf gan yr ansicrwydd ynghylch ymadawiad y DU â'r UE a'r hyn y gallai ei olygu i berthynas fasnachu'r DU â'r UE yn y dyfodol.

Mae cytuno ar y TCA wedi lleddfu llawer ar yr ansicrwydd sydd wedi bod yn ystyriaeth flaenllaw ym mhenderfyniadau buddsoddwyr posibl dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae buddsoddwyr y dyfodol yn awr yn gallu ystyried y DU, a Chymru, fel amgylchedd buddsoddi sefydlog unwaith yn rhagor. Gellir defnyddio'r ecosystem Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, y sylfaen sgiliau gadarn, y cyfreithiau sefydlog mewn perthynas â threthi a fframwaith rheoleiddio sydd wedi gyrru buddsoddi uniongyrchol o dramor yn y DU yn y gorffennol fel dulliau o hybu buddsoddiad yng Nghymru.

Aethpwyd i'r afael eisoes â rhywfaint o'r ansicrwydd ynghylch y posibilrwydd o osod tariffau ar allforion a mewnforion. Ar y llaw arall, bydd darpar fuddsoddwyr yn ymwybodol o gost a gofynion gwneud busnes gyda'r UE o'r DU (ac yn enwedig effaith rhwystrau nad ydynt yn dariffau), a ystyriwyd yn rhwystr posibl i benderfyniadau buddsoddi yn y cyfnod yn arwain at gyhoeddi'r TCA.

Mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd o ganlyniad i'r cytundeb a allai gael effaith ar fuddsoddi yn y dyfodol. Bydd gwasanaethau yng Nghymru, yn enwedig y sector gwasanaethau ariannol, yn cael eu heffeithio gan y diffyg cyfwerthedd fel y nodir yn y TCA. Ni fydd gan gwmnïau gwasanaethau ariannol o wledydd sy'n ceisio buddsoddi yn y DU er mwyn cael mynediad i'r Farchnad Sengl y mynediad awtomatig hwn mwyach hyd nes y ceir cytundeb ynghylch cyfwerthedd ym mhob maes drwy asesu ymhellach.

Bydd rhaid i'r gadwyn gyflenwi ar gyfer buddsoddwyr presennol a'r dyfodol gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â Rheolau Tarddiad. Fel y nodwyd eisoes, os ydynt yn hawlio blaenoriaeth o dan y TCA, bydd angen i fusnesau ddatgan bod eu nwyddau yn rhai tarddiadol drwy benderfynu a fydd y cadwyni cyflenwi a phrosesu a ddefnyddir wrth gynhyrchu eu nwyddau yn bodloni'r trefniadau Rheolau Tarddiad perthnasol ar gyfer eu cynnyrch penodol.

Mae ansicrwydd ynghylch sut y bydd y TCA yn effeithio ar benderfyniadau a wneir gan bencadlysoedd tramor cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Gall buddsoddwyr tramor sydd â nifer o safleoedd yn yr UE a'r DU ystyried y materion uchod, a'r rheini a grybwyllir mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon, wrth asesu safleoedd presennol i ail-fuddsoddi ynddynt a/neu eu hehangu. Mewn sefyllfaoedd pan na fydd modd gwahaniaethu rhwng safleoedd ar sail yr holl ffactorau hyn, mae'n bosibl y caiff safleoedd yr UE eu ffafrio cyn y rheini yn y DU – ni fyddai hyn wedi digwydd o dan y drefn flaenorol, fodd bynnag, oherwydd byddai'r Rheolau Tarddiad a'r costau gweinyddol a fyddai'n gysylltiedig â gwneud busnes yn yr UE wedi bod yr un fath i bob safle yn yr UE a'r DU.

38 Yn y ddwy flynedd cyn y refferendwm, cofnododd Cymru ei dau nifer uchaf o brosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor erioed ers dechrau cadw cofnodion ym 1984. (Llywodraeth Cymru / Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI))

Bydd sectorau fel prosesu bwyd ac adeiladu, yn ogystal â rhai meysydd gweithgynhyrchu, sy'n dibynnu ar weithlu sgiliau isel neu dros dro hefyd yn cael eu heffeithio gan ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â mudo a nodir yn y TCA ac effaith y cytundeb ar hawl gweithwyr i symud yn rhydd. Gallai buddsoddwyr tramor presennol yn y sectorau hyn weld effaith ar eu marchnad lafur bresennol a gallai hyn effeithio ar gynlluniau ar gyfer buddsoddi unwaith yn rhagor mewn safleoedd yng Nghymru yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am hawl pobl i symud yn rhydd i'w gweld mewn rhan arall o'r papur hwn.

## Beth mae'n ei olygu i fusnesau yng Nghymru?

Mae'n rhy gynnar i ddweud sut ddyfodol sydd yna i fuddsoddi uniongyrchol o dramor yng Nghymru yn dilyn y TCA. Gallai'r blynyddoedd diwethaf o ansicrwydd, sydd wedi'u dwysáu gan y pandemig COVID-19, sy'n effeithio ar economïau ar draws y byd ar hyn o bryd ac sy'n golygu bod penderfyniadau buddsoddi wedi'u hatal dros dro, gael effeithiau hirdymor o bosibl.

Mae'r TCA yn nodi bod gan Lywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig y gallu i bennu eu cymorthdaliadau eu hunain o fewn ffiniau unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig, Cytundebau Masnach Rydd eraill a rheolau Sefydliad Masnach y Byd, ac nad ydynt wedi'u rhwymo bellach gan reolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE. Nid yw lefel y cymhorthdal yn glir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallai'r hyblygrwydd hwn fod yn nodwedd ddeniadol i Gymru ei hyrwyddo i fuddsoddwyr tramor wrth iddi werthu ei hunan.

# Beth mae'n ei olygu i'n diogelwch

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn ceisio gwarchod diogelwch holl ddinasyddion yr UE, yn bennaf drwy'r strwythurau sydd wedi'u datblygu ganddi ers amser i helpu i orfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol rhwng Aelod-wladwriaethau, strwythurau lle chwaraeodd y DU rôl flaenllaw tra ei bod yn aelod. Cafwyd cydweithredu ers degawdau, ond mae wedi cynyddu a dod yn fwy strwythuredig ers sefydlu Ardal Schengen yn y 1990au.[39]

Er enghraifft, mae Europol (asiantaeth gorfodi'r gyfraith yr UE) yn cefnogi Aelod-wladwriaethau yn eu brwydr yn erbyn terfysgaeth, seiberdroseddu a mathau eraill o droseddu cyfundrefnol a difrifol. Mae pencadlys yr Asiantaeth yn Yr Hag, mae ganddi fwy na 1,000 o staff ac mae'n helpu gyda mwy na 40,000 o ymchwiliadau rhyngwladol y flwyddyn. Nid yw'n ymchwilio'n annibynnol nac yn arwain gweithrediadau'r heddlu oherwydd yr Aelod-wladwriaethau sy'n parhau i fod yn gyfrifol am hyn.

Mewn perthynas â pholisi ac amddiffyn tramor, mae Polisi Cyffredin ar Faterion Tramor a Diogelwch yr UE yn gosod y fframwaith ar gyfer strwythurau gwleidyddol a milwrol yr UE, a theithiau a gweithrediadau milwrol a sifiliaid dramor. Ei nodau yw cadw heddwch, cryfhau diogelwch rhyngwladol, hybu cydweithredu rhyngwladol, a datblygu a chyfnerthu democratiaeth, rheolaeth y gyfraith a pharch at hawliau dynol a rhyddid sylfaenol. Mae'r Polisi Cyffredin ar Faterion Diogelwch ac Amddiffyn yn elfen allweddol o'r Polisi Cyffredin ar Faterion Tramor a Diogelwch, ond yr Aelod-wladwriaethau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau o hyd. Mae penderfyniadau ynglŷn â chenadaethau a gychwynnir o dan y Polisi Cyffredin ar Faterion Tramor a Diogelwch yn cael eu gwneud gan Gyngor y Gweinidogion ac mae angen i'r penderfyniadau hynny fod yn unfrydol fwy neu lai bob amser.

Gan iddi ymadael â'r UE, ni fydd y DU bellach yn cymryd rhan mewn llawer o'r mentrau hyn, er bod y TCA a'r cytundebau cysylltiedig yn cynnwys darpariaethau sy'n golygu bod modd parhau i gydweithredu mewn perthynas â rhai ohonynt.

Pe na bai cytundeb wedi'i daro, byddai cydweithredu rhwng y DU a'r UE a'i Haelod-wladwriaethau wedi bod yn seiliedig ar fecanweithiau cydweithredu rhyngwladol yn unig, megis Interpol, neu Gonfensiynau perthnasol Cyngor Ewrop, er enghraifft y confensiwn hwnnw mewn perthynas ag estraddodi a thrwy sefydliadau fel Cyngor Ewrop a NATO.

**Gwarchod diogelwch dinasyddion: gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol**

Mae'r TCA yn cynnwys darpariaethau ar orfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol rhwng yr UE, ei Aelod-wladwriaethau a'r DU, ar gyfer ymchwilio i droseddau, eu hatal, eu darganfod a'u herlyn. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer atal gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth.

Mae darpariaethau'r cytundebau yn perthyn i dri maes yn fras:

- Rhannu data a gwybodaeth
- Cydweithredu rhwng awdurdodau gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol
- Trefniadau ar gyfer ildio unigolion y mae'r awdurdodau yn chwilio amdanynt

39 Mae Ardal Schengen ('Schengen'), sydd heb ffiniau, yn gwarantu'r hawl i symud yn rhydd i ddinasyddion 26 o Aelod-wladwriaethau'r UE, ynghyd â rhai gwladwriaethau nad ydynt yn rhan o'r UE, drwy eu galluogi i groesi ffiniau mewnol heb fod yn ddarostyngedig i wiriadau ar y ffin. Nid yw'r DU (ac Iwerddon) yn rhan o'r Schengen.

**Diogelu hawliau sylfaenol**

Mae'r cytundebau ar orfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol yn seiliedig ar y parch hirsefydlog a fu gan y DU a'r UE tuag at ddiogelu hawliau sylfaenol a rhyddid unigol dinasyddion y DU a'r UE. Gan fod y cytundeb yn cynnwys trefniadau ar gyfer estraddodi a chyfnewid gwybodaeth sensitif a allai effeithio ar hawliau dynol, ac ar fywydau o bosibl, mae'r DU, yr UE a'r Aelod-wladwriaethau i gyd am fod yn hyderus y bydd hawliau dynol yn cael eu cynnal, ac maent hefyd yn dymuno gweld dealltwriaeth gyffredin o sut y caiff yr hawliau hynny eu diogelu. Bydd y rhan hon o'r cytundeb yn peidio â chael effaith os bydd y DU neu'r UE yn terfynu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly, drwy lofnodi'r cytundeb, mae'r DU, yr UE a'i Haelod-wladwriaethau yn cadarnhau eu hymrwymiad i barhau i barchu democratiaeth a rheolaeth y gyfraith, a diogelu hawliau sylfaenol a rhoi iddynt effaith ddomestig.

**Rhannu data a gwybodaeth**

Mae'r newid mwyaf arwyddocaol yn y trefniadau ar gyfer rhannu data'n ymwneud â System Wybodaeth Schengen (SIS II). SIS II yw'r system rhannu gwybodaeth fwyaf, a'r system sy'n cael ei defnyddio fwyaf, ar gyfer diogelwch a rheoli ffiniau yn Ewrop. Mae'n galluogi awdurdodau i gofnodi a gweld rhybuddion mewn amser real mewn perthynas ag unigolion sydd ar goll, unigolion mae'r awdurdodau'n chwilio amdanynt, ac eitemau sydd wedi cael eu colli neu eu dwyn. Gellir cael mynediad i'r system hon drwy systemau cyfrifiadurol heddluoedd domestig Aelod-wladwriaethau'r UE a gwladwriaethau Schengen[40]. Yn ôl y sôn, defnyddiodd heddluoedd y DU y gronfa ddata tua 603 miliwn o weithiau mewn un flwyddyn.

Gan gydnabod ei gwerth ar gyfer plismona gweithredol, ceisiodd Llywodraeth y DU sicrhau mecanwaith yn y cytundeb a fyddai wedi galluogi'r DU ac Aelod-wladwriaethau'r UE i rannu a gweithredu ar hysbysiadau amser real, fel y mae SIS II yn darparu ar ei gyfer ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae safbwynt yr UE wedi bod yn gyson, sef bod penderfyniad y DU i ymadael â'r UE a dod yn drydedd wlad y tu allan i Barth Schengen yn golygu nad oes sail gyfreithiol i'r DU gael unrhyw fynediad i SIS II. O ganlyniad, cafodd mynediad y DU at SIS II ei 'ddiffodd' ar 31 Rhagfyr 2020.

Yn hytrach, mae'r cytundeb yn darparu sail gyfreithlon arall ar gyfer rhannu gwybodaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag unigolion mae'r awdurdodau'n chwilio amdanynt, ac unigolion ac eitemau sydd ar goll, a rhannu gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau a darparu gwybodaeth yn ddigymell. Bydd y DU hefyd yn gwneud mwy o ddefnydd o sianeli Interpol, ac mae'r cytundeb yn cynnwys trefniadau i'r DU gydweithredu ag Europol ac Eurojust fel trydedd wlad (gweler isod). Fodd bynnag, mae'n annhebyg y bydd y trefniadau hyn yn gallu llenwi'n llawn y bylchau a grëwyd o ganlyniad i golli mynediad i SIS II.

Mae'r TCA yn caniatáu ar gyfer parhau i rannu data ar DNA, olion bysedd a chofrestriadau cerbydau ar sail gilyddol (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel data 'Prüm). Mae'r DU a'r UE eisoes yn rhannu data ar DNA ac olion bysedd, ac mae'r cytundeb hefyd yn caniatáu ar gyfer rhannu data ar gofrestriadau cerbydau. Mae'r cytundeb yn seiliedig ar drefniadau presennol ar gyfer rhannu data 'Prüm' rhwng yr UE a Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir.

40 Tystiolaeth a roddwyd gan y Dirprwy Gomisiynydd Cynorthwyol Richard Martin, yr arweinydd ar Brexit ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, gerbron Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr Undeb Ewropeaidd – yr Is-bwyllgor ar Ddiogelwch a Chyfiawnder yr UE. https://committees.parliament.uk/oralevidence/1150/html/

Os yw'r data'n cyfateb, ar ôl chwilio drwy gronfa ddata gwlad arall o dan y mecanweithiau cymerir camau ychwanegol i gael y data perthnasol, yn unol â chyfreithiau perthnasol y wlad sy'n cadw'r data.

Mae'r cytundeb hefyd yn darparu ar gyfer parhau i rannu data ar deithwyr awyr (a elwir yn ddata Cofnodion Enwau Teithwyr neu PNR). Unwaith eto, mae'r cytundeb yn seiliedig ar drefniadau presennol rhwng yr UE a thrydydd gwledydd megis Awstralia a'r Unol Daleithiau. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo data PNR o gwmnïau hedfan i'r DU, cyn i awyrennau adael rhwng yr UE a'r DU, yn fwy rheolaidd na'r trefniadau blaenorol. Mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer mesurau diogelu data penodol, a bydd cyfnod gweithredu (o dair blynedd ar y mwyaf) lle bydd y DU yn gwneud rhai newidiadau technegol i'w systemau i alluogi'r mesurau diogelu ynglŷn â dileu data PNR teithwyr ar ôl iddynt adael y wlad i weithredu'n effeithiol.

Mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer parhau i rannu data ar gofnodion troseddol rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau unigol yr UE. Mae'r trefniadau'n cynnwys prosesau symlach ac iddynt derfyn amser ar gyfer rhannu gwybodaeth am gofnodion troseddol, ac yn nodi y gellir cyfnewid gwybodaeth at ddibenion atal troseddu a diogelu. Bydd cofnodion troseddol yn parhau i gael eu rhannu rhwng Aelod-wladwriaethau'r DU a'r UE drwy seilwaith technegol a rennir.

**Cydweithredu rhwng awdurdodau gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol**

Europol ac Eurojust yw dwy brif asiantaeth yr UE ar gyfer hwyluso cydweithredu rhwng awdurdodau gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol. Europol yw asiantaeth yr UE ar gyfer gorfodi'r gyfraith. Mae'n rhoi cymorth i Aelod-wladwriaethau a phartneriaid nad ydynt yn rhan o'r UE, ac yn hwyluso cydgysylltu rhyngddynt, i atal a mynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol a therfysgaeth. Mae Eurojust yn cefnogi'r gwaith o gydgysylltu ymchwiliadau ac erlyniadau, a chydweithredu rhwng Aelod-wladwriaethau, gyda'r nod o gynorthwyo Aelod-wladwriaethau i ymchwilio i droseddau trawsffiniol ac erlyn mewn perthynas â nhw yn fwy effeithiol.

Mae aelodaeth o Europol ac Eurojust wedi'i chyfyngu i Aelod-wladwriaethau, felly roedd diwedd y cyfnod pontio yn golygu bod aelodaeth y DU o'r asiantaethau hyn hefyd yn dod i ben. Fodd bynnag, mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer cydweithredu rhwng y DU ac Europol/Eurojust yn unol â'r rheolau ar gyfer trydydd gwledydd (gan gynnwys y rhai ym Mharth Schengen), fel y'u sefydlwyd yn neddfwriaeth yr UE.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y DU yn gallu cymryd rhan mewn gweithrediadau cyffredin, a bod yn rhan o dimau ymchwilio ar y cyd a pharhau i ymwneud â phrosiectau dadansoddi Europol ar feysydd troseddu penodol. Bydd yn gallu cael cymorth dadansoddol gan Europol, a defnyddio sianeli cyfathrebu diogel cyffredin fel system SIENA Europol (cymhwysiad y rhwydwaith diogel ar gyfer rhannu gwybodaeth). Bydd y DU hefyd yn gallu secondio swyddogion cyswllt i Europol: bydd y swyddogion hyn yn gweithio ym mhencadlys Europol ochr yn ochr â'u cymheiriaid yn yr UE i hwyluso cydweithredu trawsffiniol. Bydd y DU hefyd yn gallu secondio erlynydd cyswllt a'i gynorthwywyr i Eurojust.

Fodd bynnag, ni fydd y DU bellach yn chwarae rhan yn y gwaith o lywodraethu'r asiantaethau, ac ni fydd ganddi fynediad i System Wybodaeth Europol.

Yn ogystal â chydweithredu ag Europol ac Eurojust, mae'r cytundeb yn cynnwys ymrwymiadau i fynd i'r afael â gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth, ac i gynnal cyfundrefnau ar gyfer atal gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth – mae hefyd o gymorth ar gyfer y cydweithredu a geir mewn perthynas â rhewi ac atafaelu asedau.

Mae'r cytundeb yn amlinellu'r amgylchiadau penodol lle y gall y naill barti neu'r llall atal dros dro neu ddod â'r maes cydweithredu hwn i ben. Er enghraifft, yn ogystal â gallu dod â'r rhan ar orfodi'r gyfraith i ben am unrhyw reswm, gall y naill barti neu'r llall atal cydweithredu dros dro os yw'n ystyried bod diffygion difrifol a systemig yn y ffordd y mae'r parti arall yn diogelu hawliau sylfaenol, rheolaeth y gyfraith neu ddiogelu data.

**Trefniadau ar gyfer ildio unigolion mae'r awdurdodau yn chwilio amdanynt**

Roedd diwedd y cyfnod pontio hefyd yn golygu bod y DU wedi peidio â bod yn rhan o drefniadau'r Warant Arestio Ewropeaidd (EAW). Mae hon yn system symlach ar gyfer estraddodi, yn seiliedig ar yr egwyddor o gydnabod penderfyniadau barnwrol yn gilyddol. Mae'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau gyhoeddi gwarantau yn gofyn i unigolyn gael ei ildio o fewn 90 o ddiwrnodau. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai 48 o ddiwrnodau yw'r amser cyfartalog i estraddodi person dan amheuaeth sy'n gwrthwynebu'r estraddodi, gan ei gwneud yn broses lawer cyflymach na threfniadau Confensiwn Cyngor Ewrop.

Rhaid i Aelod-wladwriaethau ildio unigolion yr amheuir iddynt gyflawni unrhyw drosedd mewn 32 o gategorïau rhestredig, ni waeth a yw'r drosedd maent wedi cael eu cyhuddo ohoni yn drosedd yn y wlad maent yn bresennol ynddi. Ni ellir gwrthod caniatáu'r estraddodi ar sail y ffaith bod y wlad yn ystyried y drosedd yn dramgwydd gwleidyddol, yn hytrach na thramgwydd troseddol, ac mae'r EAW yn cael blaenoriaeth dros unrhyw waharddiadau cyfansoddiadol a all fod gan Aelod-wladwriaeth mewn perthynas â'i gwladolion ei hun yn cael eu hestraddodi.

Wrth ddatblygu ei safbwyntiau ar negodi ynghylch gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol, roedd yr UE yn gyson wrth gysylltu'r EAW â'r hawl i bobl symud yn rhydd, parchu hawliau sylfaenol, a gweithio ar y cyd i orfodi a gweithredu'r rheolau ar draws Aelod-wladwriaethau, o dan awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop. O'r herwydd, safbwynt yr UE oedd, gan nad oedd y DU bellach yn dymuno derbyn yr hawl i bobl symud yn rhydd nac awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop, na allai fod yn rhan o'r EAW ac ni cheisiodd Llywodraeth y DU ymuno â'r EAW.

Ceisiodd y DU a'r UE drefniadau ildio wedi'u symleiddio yn seiliedig ar gytundeb yr UE yn y maes hwn â Norwy a Gwlad yr Iâ. Felly, nid yw'r DU bellach yn rhan o'r EAW, ond mae'r Cytundeb yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ildio troseddwyr sy'n cynnwys prosesau symlach (gan gynnwys trosglwyddo uniongyrchol rhwng awdurdodau barnwrol), terfynau amser caeth, mesurau diogelu cadarn, hawliau gweithdrefnol a rheolaeth farnwrol. Er hynny, mae'r cytundeb newydd yn darparu mesurau diogelu ychwanegol i unigolion y tu hwnt i'r rhai yn y Warant Arestio Ewropeaidd. Mae'r mesurau diogelu ychwanegol hyn yn ei gwneud yn glir y gellir gwrthod ildio unigolyn lle mae ei hawliau sylfaenol mewn perygl, lle byddai'r estraddodi'n anghymesur/diangen, neu lle mae'n debygol y byddai'n cael ei gadw am gyfnodau hir cyn treial. O dan y cytundeb, caiff y DU neu Aelod-wladwriaethau'r UE wrthod ildio unigolyn neu ofyn am fesurau diogelu ychwanegol mewn nifer o achosion penodol, hynny yw, mewn perthynas â'u gwladolion eu hunain. Yn wahanol i'r EAW, nid yw'r cytundeb yn cael blaenoriaeth dros unrhyw waharddiadau cyfansoddiadol a all fod gan Aelod-wladwriaeth mewn perthynas â'i gwladolion ei hun yn cael eu hestraddodi. Ond lle mae estraddodi o'r fath wedi'i wahardd, mae'r cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ystyried cyfeirio achosion at eu hawdurdodau erlyn eu hunain.

## Euratom a Mesurau Diogelu Niwclear

Nid yw'r DU bellach yn aelod o'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Euratom), y Farchnad Sengl ar gyfer masnachu deunyddiau a thechnoleg niwclear. Yn hytrach, mae'r DU wedi ymrwymo i gytundeb ar wahân gyda Euratom, ar ffurf Cytundeb Cydweithredu ar Faterion Niwclear. Mae'r Cytundeb Cydweithredu ar Faterion Niwclear yn fath cyffredin o gytundeb rhyngwladol sy'n darparu sail gyfreithiol ar gyfer cydweithredu niwclear sifil. Mae gan y DU ac Euratom gytundebau tebyg gyda gwledydd eraill.

Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cyflenwi a throsglwyddo deunyddiau niwclear a deunyddiau, technoleg ac offer nad ydynt yn niwclear; ac ar gyfer masnachu a chydweithredu sy'n ymwneud â'r cylch tanwydd niwclear. Mae hefyd yn cynnwys diogelwch niwclear (gan gynnwys ymrwymiad i beidio â lleihau'r safonau presennol), diogelu rhag ymbelydredd, a rheoli tanwydd gwastraff a gwastraff ymbelydrol. Mae'n darparu sail gyfreithiol ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol ar ymchwil a datblygu ym maes ymholltiad niwclear ac ymasiad niwclear, ac ar gyfer cydweithredu ar gyflenwi ac argaeledd radioisotopau meddygol.

## Polisi Tramor a Diogelwch

Fel y nodwyd uchod, mae Polisi Cyffredin ar Faterion Tramor a Diogelwch yr UE yn gosod y fframwaith ar gyfer strwythurau gwleidyddol a milwrol yr UE, a theithiau a gweithrediadau milwrol a sifilaidd dramor. Ei nodau yw cadw heddwch, cryfhau diogelwch rhyngwladol, hybu cydweithredu rhyngwladol, a datblygu a chyfnerthu democratiaeth, rheolaeth y gyfraith a pharch at hawliau dynol a rhyddid sylfaenol. Mae'r Polisi Cyffredin ar Faterion Diogelwch ac Amddiffyn yn rhan annatod o'r Polisi Cyffredin ar Faterion Tramor a Diogelwch.

Roedd yr UE wedi cynnig sefydlu fframwaith ar gyfer cydweithredu ar bolisi tramor, diogelwch ac amddiffyn i fynd i'r afael â bygythiadau allanol i ddiogelwch, ond nid oedd Llywodraeth y DU am negodi darpariaethau yn y meysydd hyn – felly, nid oes fframwaith o'r fath ar waith. Byddai unrhyw gyfranogiad gan y DU yn y dyfodol yn y Polisi Cyffredin ar Faterion Tramor a Diogelwch a'r Polisi Cyffredin ar Faterion Diogelwch ac Amddiffyn yn ddarostyngedig i reolau'r UE ar drydydd gwledydd yn cyfranogi (y mae nifer ohonynt yn cymryd rhan mewn teithiau a gweithrediadau'r Polisi Cyffredin ar Faterion Diogelwch ac Amddiffyn ar hyn o bryd).

# Beth mae'n ei olygu i'n cymunedau a'n cymdeithas

Mae cymunedau Cymru wedi elwa ar fod yn aelod o'r UE mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys amddiffyniadau cyfreithiol mewn meysydd polisi pwysig fel hawliau gweithwyr a safonau amgylcheddol, cyllid a roddwyd i gefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig a'n ffermwyr, a sicrhau bod nifer o wasanaethau cyhoeddus (yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol) a'r sectorau economaidd wedi cael mynediad i'r amrediad o sgiliau sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol. Bydd y newid yn ein perthynas â'r UE yn arwain at nifer o ganlyniadau i'n cymunedau ac i'n cymdeithas.

**Safonau Llafur ac Amgylcheddol**

Mae'r TCA yn cynnwys egwyddor dim atchweliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r UE a'r DU beidio â gwanhau'r amddiffyniadau presennol ar gyfer llafur a'r gymdeithas, yr amgylchedd a'r hinsawdd, naill ai drwy eu lleihau neu drwy orfodaeth annigonol. Y bwriad yw dileu unrhyw fantais gystadleuol bosibl gan y naill barti neu'r llall drwy leihau costau cynhyrchu o ganlyniad i newidiadau o'r fath. Mae gan y cysyniad hwn gynseiliau mewn cytundebau masnach eraill. Fodd bynnag, mae natur uchel a chymhleth safonau rheoleiddio Marchnad Sengl yr UE, ynghyd â'r nifer fawr iawn o nwyddau sydd eisoes yn cael eu masnachu rhwng yr UE a'r DU, gan gynnwys cadwyni cyflenwi trawsffiniol integredig, yn gwneud hwn yn fater arbennig o anodd i fynd i'r afael ag ef. Nid yw'n glir ar unwaith sut y bydd hyn yn gweithredu'n ymarferol na sut y bydd yn cael ei orfodi. Mae'r TCA yn darparu ar gyfer gwaith pellach rhwng yr UE a'r DU i oruchwylio'r mater hwn.

Beth bynnag a ddaw, mae natur gyfreithiol y materion hyn a'r gwaith o'u gorfodi bellach yn llawer mwy cymhleth. Gall union natur rhwymedigaethau cyfreithiol yn y naill awdurdodaeth neu'r llall ymwahanu gydag amser. Gallai hyn achosi diffyg eglurder ac anghysondebau yn y pen draw, wrth ddehongli materion fel hawliau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Beth bynnag a ddaw, mae gan y TCA yn ei gyfanrwydd wendid cynhenid oherwydd hyn. Mae'n darparu ar gyfer yr hyn a elwir yn 'ail-gydbwyso', pan fydd y naill barti neu'r llall yn credu bod newidiadau rheoleiddiol wedi arwain at ymwahanu mewn modd sy'n rhoi mantais gystadleuol o ran masnachu neu fuddsoddi i un parti. Gallai hyn arwain at y naill barti neu'r llall yn cymryd camau adferol i fynd i'r afael ag anghydbwysedd o'r fath, tra bydd yn aros am eu hadolygiad gan banel cymrodeddu annibynnol; a gallai hyn, mewn theori, arwain yn y pen draw at ddileu'r darpariaethau masnach yn y TCA.

Pleidleisiodd llawer o'r rhai a oedd yn credu y dylai'r DU ymadael â'r UE o blaid gwneud hynny oherwydd byddai'n adfer sofraniaeth i'r DU. Mae Llywodraeth y DU wedi honni bod y TCA wir yn adfer sofraniaeth y DU drwy dynnu'r DU allan o gwmpas uniongyrchol deddfwriaeth yr UE. Fodd bynnag, mae natur darpariaethau'r TCA ar yr agwedd hon yn golygu bod y sofraniaeth hon bron â bod yn gwbl ddamcaniaethol os yw manteision y TCA i aros. Mae'n debyg y byddai unrhyw wyriad sylweddol gan y DU sy'n arwain at wanhau safonau o'i chymharu â'r rhai mewn grym ar y pryd yn yr UE (hyd yn oed pe bai hyn o ganlyniad i newidiadau i reoliadau'r UE) yn cael ei herio mewn rhyw ffordd gan yr UE. O ganlyniad, mae cyfyngiadau sylweddol iawn o hyd ar arfer y sofraniaeth honno os yw manteision economaidd masnachu â'r UE i'w cynnal.

**Colli Cyllid yr UE**

Rhywbeth sy'n llawer llai damcaniaethol yw Cymru yn colli ffrydiau cyllid o ganlyniad i ymadael â'r UE, er gwaethaf yr addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch refferendwm 2016 na fyddai Cymru ar ei cholled o ganlyniad i ymadael â'r UE.

Dros y degawdau diwethaf mae Cymru wedi elwa ar gryn dipyn o gyllid drwy raglenni'r UE, cyfanswm o ymhell dros £700 miliwn y flwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd mwyafrif helaeth yr arian hwn yn dod o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) a chyllid y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ond roedd buddion sylweddol hefyd yn deillio o'n cyfranogiad mewn amrywiaeth o raglenni a ariannwyd yn gystadleuol fel Horizon 2020 ac Erasmus+.

Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi chwarae rôl arbennig o bwysig wrth gefnogi cymunedau difreintiedig ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth a chymorth ariannol i Fusnesau Bach a Chanolig, cymorth cyflogaeth a sgiliau drwy brentisiaethau a hyfforddeiaethau, a rhaglenni wedi'u targedu i helpu pobl yr effeithir arnynt gan ddiweithdra hirdymor. Mae cyllid hefyd wedi helpu i gyflwyno band eang cyflym iawn a moderneiddio seilweithiau lleol gan gynnwys cyrchfannau twristiaeth, asedau cymunedol, safleoedd busnes – a'r ffyrdd a'r rheilffyrdd, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol ym mhrosiect Metro De Cymru.

Ymrwymodd Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid llawn yma yn y DU yn lle cyllid yr UE a gollwyd ar gyfer ffermio, pysgodfeydd a buddsoddi rhanbarthol (cronfeydd strwythurol). Roedd Adolygiad o Wariant Tachwedd 2020 yn cynnwys cyhoeddiadau mewn perthynas â'r cronfeydd hyn, ond roedd y cyllid a gyhoeddwyd gryn dipyn yn llai na'r ymrwymiadau hynny.

Ers Refferendwm yr UE, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru i ddatblygu dulliau newydd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ar ôl inni ymadael â'r UE. Mae hyn wedi cynnwys trafod â channoedd o sefydliadau, ymgynghori â'r cyhoedd, a phrosiect dwy flynedd gyda'r OECD i integreiddio'r arferion gorau rhyngwladol. Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddwyd Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol newydd, wedi'i gynhyrchu ar y cyd, yn amlinellu blaenoriaethau buddsoddi a strwythurau cyflawni ar gyfer y cyllid yn lle cyllid yr UE a gollwyd, gan gynnwys datganoli cryn dipyn o gyllid a chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau i ardaloedd lleol a rhanbarthol. Y pedwar maes buddsoddi bras o fewn y Fframwaith yw:

- Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol
- Lleihau'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb economaidd
- Cefnogi'r broses o newid i economi ddi-garbon
- Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy.

Mae ailgychwyn rhaglenni buddsoddi drwy'r Fframwaith bellach yn dibynnu ar Lywodraeth y DU yn cyflawni ei hymrwymiadau ariannol hirdymor drwy ei Chronfa Ffyniant Gyffredin ac yn parchu ymreolaeth ddatganoledig Cymru yn y maes hwn. Bydd ei habsenoldeb yn arwain at ymyriadau pwysig i gefnogi'r economi yn dod i ben – heb ymyriadau newydd yn cael eu rhoi yn eu lle ar adeg pan fydd eu hangen fwyaf i adfer o COVID-19.

**Cronfeydd Strwythurol / Y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai cyllid i gymryd lle'r Cronfeydd Strwythurol – y Gronfa Ffyniant Gyffredin – yn cael ei ariannu i ddechrau fel cynllun peilot ar gyfer y DU gyfan, gyda £220 miliwn ar gael ledled y DU ar gyfer 2021–22, gyda'r disgwyl y byddai hyn yn codi tuag at £1.5bn yn y blynyddoedd wedi hynny. Mae'r ffigur ar gyfer 2021–22 yn llawer

is na'r £375 miliwn yr oedd Cymru ei hun yn ei dderbyn drwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Ers dros 20 mlynedd, mae cyllid yr UE wedi helpu pobl i gael gwaith ac wedi sicrhau'r amodau ar gyfer swyddi newydd a gwell. Mae wedi bod yn hanfodol wrth foderneiddio ein heconomi a buddsoddi mewn busnesau, ymchwil a datblygu, gwyddoniaeth, seilwaith a sgiliau. Am fod trefniadau uniongyrchol a thymor hwy ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau i fod yn aneglur, mae cymorth parhaus ar gyfer prosiectau yn y meysydd hyn sy'n dod i ben eleni a'r flwyddyn nesaf mewn perygl. Byddai hyn yn effeithio ar amrediad o sefydliadau a sectorau y mae eu gwaith wedi derbyn cymorth gan gronfeydd yr UE, yn enwedig awdurdodau lleol, prifysgolion a cholegau, busnesau, a'r trydydd sector.

### Cyllid ar gyfer Ffermydd a Datblygu Gwledig

Ymrwymodd Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid yn lle cyllid yr UE a gollwyd ar gyfer ffermio, gan gynnal y gyllideb flynyddol ar gyfer ffermwyr a datblygu gwledig. Unwaith eto, fodd bynnag, mae'r hyn maent wedi'i wneud yn hyn o beth gryn dipyn yn llai na'r cyllid a gollwyd, am eu bod wedi didynnu'r cyllid parhaus sydd ar gael drwy Gynllun Datblygu Gwledig yr UE o'r setliad, ac ni fyddai hynny wedi digwydd pe baem yn dal i fod yn yr UE. O ganlyniad i hyn a newidiadau eraill na ellir eu cyfiawnhau, mae'r cyllid a roddwyd yn lle'r cyllid a gollwyd ar gyfer cyllid yn 2021/22, drwy'r Adolygiad o Wariant, £137 miliwn yn llai na'r £337 miliwn yr oeddem yn ei ddisgwyl.

Mae cyllid yr UE wedi helpu i gefnogi amrediad eang o sectorau gwledig fel ffermio, bwyd, rheoli tir a'r economi wledig ehangach, gan ddarparu amrediad o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Oherwydd yr ansicrwydd a achoswyd gan y pandemig parhaus ac ymadawiad y DU â'r UE, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal y gyllideb flynyddol i ffermwyr drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol. Fodd bynnag, gyda'r ymrwymiad hwn, mae'r setliad ariannol yn gadael cyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer datblygu gwledig newydd mewn ymateb i flaenoriaethau domestig – megis ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r bygythiad i fioamrywiaeth. Os bydd Llywodraeth y DU yn mabwysiadu'r un dull wrth adolygu gwariant yn y dyfodol, bydd hyn yn parhau i gael effaith ar y cyllid sydd ar gael i ffermwyr a datblygu gwledig nes y daw Cynllun Datblygu Gwledig yr UE i ben yn 2023.

### Rhaglenni

Cyn ac yn ystod y trafodaethau rhwng yr UE a'r DU, roedd gan Lywodraeth Cymru farn gyson y dylai'r DU negodi ynghylch y posibilrwydd o gael mynediad i amrediad cyfan rhaglenni'r UE yr oedd Cymru wedi cymryd rhan ynddynt o'r blaen. Gofynnwyd hefyd i Lywodraeth y DU negodi ynghylch y posibilrwydd o Gymru yn cael cymryd rhan yn y rhaglenni hyn ar ei phen ei hun, os nad oeddent am gael y mynediad hwn ar gyfer Lloegr.

Yn ogystal â'r manteision ariannol, mae cymryd rhan yn y rhaglenni hyn ar lefel yr UE wedi darparu fframwaith ar gyfer ymgysylltu a chydweithredu rhyngwladol na ellir ei ddisodli'n hawdd â fframweithiau domestig.

Felly, roedd yn destun siom gennym weld nad oedd mandad Llywodraeth y DU ar gyfer trafodaethau'n cynnwys nifer fawr o raglenni y mae Cymru yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd, gan gynnwys Ewrop Greadigol, cronfa Amgylcheddol LIFE+ a'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, gan gynnwys cyllid ar gyfer cydweithredu trawsffiniol rhwng Cymru ac Iwerddon.

Mae'r TCA yn darparu ar gyfer cyfranogiad parhaus y DU mewn pum rhaglen

- Rhaglen Ymchwil ac Arloesi Horizon Ewrop
- Rhaglen ymchwil niwclear Euratom
- Prosiect Adweithydd Thermoniwclear Arbrofol Rhyngwladol ITER (Lladin am 'Y Ffordd/Y Llwybr') i adeiladu system ymasiad niwclear weithredol gyntaf y byd
- Prosiect monitro'r ddaear Copernicus
- Gwasanaethau gwyliadwriaeth ac olrhain â lloeren yr UE

Rydym yn falch y bydd y DU yn gysylltiedig â rhaglen Horizon Ewrop. Bydd Horizon Ewrop yn cynnig dros €95bn o gyllid dros y saith mlynedd nesaf, gyda chyfleoedd ar gyfer ymchwilwyr unigol a phrosiectau cydweithio, a'r potensial i wneud cynnydd sylweddol mewn meysydd fel iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae rhagflaenydd Horizon Ewrop wedi darparu platfform i ymchwilwyr a busnesau Cymru gymryd rhan mewn prosiectau gwerth dros €2.4bn, sy'n cynnwys 78 o wledydd, ac wedi dod â grantiau gwerth €141 miliwn i Gymru hyd yn hyn. Gan fod yr ansicrwydd ynghylch statws y DU bellach wedi'i ddatrys, rydym yn edrych ymlaen at weld diddordeb yn y rhaglen fyd-eang hon yn cynyddu'n sylweddol.

Er y bydd ymgeiswyr yn cael gwneud cais fel pe baent yn dod o Aelod-wladwriaeth yr UE gydag ond ychydig iawn o eithriadau, nid yw cysylltiad y DU â'r rhaglen yn darparu'r holl fanteision yr oedd y DU yn eu mwynhau yn flaenorol fel Aelod-wladwriaeth yr UE. Er enghraifft, ni fydd cynrychiolwyr y DU yn cael pleidleisio ym mhwyllgorau llywodraethu'r rhaglen mwyach. Yn ogystal, bydd 'mecanwaith cywiro ariannol' hefyd yn sicrhau na all y DU fanteisio ar ragoriaeth y rhaglenni mewn modd anghymesur.

**Diwylliant a'r celfyddydau**

Mae Cymru yn genedl sy'n falch iawn o'i diwylliant a'i chelfyddydau, a hynny gyda rheswm da, ac mae gan ein hartistiaid a'n gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu i adeiladu pontydd o fewn a rhwng gwledydd a diwylliannau, gan greu cysylltiadau newydd a datblygu cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli.

Mae cryn bryder wedi cael ei leisio ynghylch rhwystrau newydd sy'n dod i'r amlwg sy'n llesteirio gallu'r sector i barhau i oroesi a ffynnu. Mae pryderon wedi cael eu lleisio gyda'r sector fod y rhai sy'n cynllunio teithiau gŵyl a chyngherddau yn dioddef o ganlyniad i ddiffyg eglurder a chymhlethdodau ychwanegol.

Mae'r newidiadau i'r rhyddid i symud nwyddau yn effeithio ar setiau teithiol artistiaid a chwmnïau, cludo offerynnau cerddorol a chludo darnau o gelf rhwng Aelod-wladwriaethau'r DU a'r UE. Mae hyn yn golygu, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen tystysgrifau Admission Temporaire neu Fynediad Dros Dro (ATA), rhifau EORI neu dystysgrifau gan y Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt sydd mewn Perygl. Yn ogystal, mae cyfyngiadau newydd ar nifer y gweithiau y caiff cerbyd sy'n cludo nwyddau o'r DU stopio yn yr UE (masnach arforol), rhywbeth a fydd yn cyfyngu'n sylweddol ar deithiau yn yr UE.

Mae'r newidiadau i ryddid pobl i symud yn effeithio ar leoliadau, gwyliau a chwmnïau yng Nghymru sy'n archebu neu'n gwahodd artistiaid o'r UE; ac artistiaid a chwmnïau o Gymru sy'n gweithio neu'n teithio yn yr UE. Gall y sefyllfa o ran y fisâu, y trwyddedau gwaith a'r dogfennau eraill sydd eu hangen fod yn wahanol ym mhob Aelod-wladwriaeth a'r DU. Er enghraifft, efallai y bydd yn ofynnol bellach i artistiaid yr UE sy'n dod i'r DU ar gyfer

gwaith tymor byr fynd drwy'r llwybr Ymrwymiadau Taledig a Ganiateir neu drwy Fisa Haen 5 (Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon). Efallai y bydd angen i gwmnïau a lleoliadau yng Nghymru wneud cais i fod yn noddwr er mwyn rhoi Tystysgrifau Nawdd. Mae'r cymhlethdod newydd hwn wedi arwain at yr angen am gryn dipyn o adnoddau, amser ac arian ychwanegol.

## Mynediad i sgiliau

Mae dinasyddion yr UE wedi bod o fudd sylweddol i Gymru, ein heconomi a'n cymunedau. Mae nifer o ddinasyddion gwledydd eraill yn dewis ymgartrefu yng Nghymru, ac mae'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru yn chwarae rhan hanfodol bwysig yn ein cymdeithas – maent yn gweithio yn ein prif sectorau busnes, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac yn atgyfnerthu rhagoriaeth academaidd ein prifysgolion.

Gyda'r hawl i symud yn rhydd yn dod i ben, ni fydd gan ddinasyddion Ardal Economaidd Ewrop a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop (ac eithrio'r rhai o Weriniaeth Iwerddon) yr hawl awtomatig mwyach i fyw a gweithio yn y DU[41]. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno system fewnfudo newydd sy'n seiliedig ar bwyntiau sydd bellach yn berthnasol i bob unigolyn sy'n dymuno symud i'r DU.

Mae'n bosibl mai effeithiau cyffredinol y system newydd fydd lleihau lefelau mewnfudo, maint poblogaeth y DU a chyfanswm cynnyrch domestig gros y DU. Yn dibynnu ar faint mae ymfudo i'r DU yn cael ei leihau, gallai hyn waethygu tueddiadau demograffig y boblogaeth yng Nghymru sy'n gostwng ac yn heneiddio.

Gallai'r effeithiau hyn waethygu'r pwysau a'r heriau presennol ar y gweithlu a wynebir gan nifer o sectorau gwahanol sydd â hanes o ddibynnu ar weithwyr o'r UE. Yng Nghymru mae hyn yn cynnwys y sector gofal; rhannau o'r sector gweithgynhyrchu – gan gynnwys prosesu bwyd; twristiaeth; lletygarwch; a'r sector manwerthu, gyda rhai galwedigaethau yn y sectorau hyn nad ydynt bellach yn gymwys o dan y system newydd sy'n seiliedig ar bwyntiau. Mae argyfwng pandemig COVID-19 wedi dangos yn glir faint rydym yn dibynnu ar weithwyr allweddol, y mae llawer ohonynt yn dod yn wreiddiol o'r Ardal Economaidd Ewrop a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop. Heb eu cymorth ni fyddai gwasanaethau a diwydiannau rheng flaen hanfodol, yr ydym yn dibynnu arnynt yn awr yn fwy nag erioed, wedi bod yn gynaliadwy.

O dan y system newydd, ar gyfer galwedigaethau lle yr ystyrir bod prinder gweithwyr, bydd trothwy'r cyflog i weithio yn y DU yn is. Yn dilyn galwad am dystiolaeth gan y Pwyllgor Cynghorol ar Ymfudo (MAC), gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i benderfynu pa alwedigaethau y dylid eu cynnwys yn y Rhestr o Alwedigaethau lle mae prinder gweithwyr (SOL) ar gyfer Cymru. Roedd hyn yn seiliedig ar ddefnyddio methodoleg MAC, wedi'i hategu gan dystiolaeth o brinder gweithwyr gan randdeiliaid allanol Llywodraeth Cymru mewn amrediad eang o sectorau ledled Cymru. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at nifer o alwedigaethau allweddol y mae angen eu cynnwys i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion sgiliau ein system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â diwydiannau gweithgynhyrchu, digidol, masnachol a chreadigol; y diwydiant bwyd a diod; milfeddygon; gwasanaethau proffesiynol a busnes; ac adeiladu. Yn anffodus, er gwaethaf y dystiolaeth glir sy'n ategu hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi gweithredu ar argymhelliad MAC i sefydlu SOL ar gyfer Cymru sy'n cydnabod anghenion marchnad lafur Cymru, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, ac mae hyn yn achosi problemau gwirioneddol i'n sector cyhoeddus ac i gyflogwyr sydd wedi dibynnu ar weithwyr o'r UE i lenwi swyddi lle mae prinder sgiliau.



41 Nid yw'r adran hon yn berthnasol i Weriniaeth Iwerddon o ganlyniad i drefniadau'r Ardal Deithio Gyffredin.

# Beth ddylai ddigwydd nesaf?

Rhaid inni edrych tua'r dyfodol. Dyma realiti newydd ein perthynas â'r UE. Fel y nodir yn y ddogfen hon, mae ymadael â'r UE ac adfer perthynas a gafodd ei meithrin dros 40 mlynedd yn arwain at oblygiadau sylweddol i unigolion, busnesau a'n cymunedau. Er nad yw'r TCA yn cynrychioli'r math o berthynas roeddem yn dadlau drosti, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i helpu ein cymdeithas i ymdopi â'r newidiadau hyn, er mwyn cyfyngu ar unrhyw effeithiau negyddol, a manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd posibl.

Mae angen inni i gyd addasu i'r dyfodol newydd ac adeiladu ar gryfderau gwych Cymru. Roedd Cymru yn ffynnu fel rhan o'r UE a byddwn yn parhau i fod yn genedl fyd-eang sy'n edrych tuag allan.

Roedd ein Strategaeth Genedlaethol yn amlinellu ein prif nodau i godi proffil Cymru yn rhyngwladol, tyfu'r economi drwy allforion a mewnfuddsoddi a sefydlu Cymru fel gwlad sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Ym mis Rhagfyr gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Allforio, sy'n amlinellu'r camau ymarferol rydym yn eu cymryd i gefnogi allforwyr Cymru, gan gynnwys sut y gallwn eu helpu i addasu ac ymateb i heriau'r berthynas fasnachu newydd â'r UE.

Mae'n hollbwysig bod y TCA yn gallu darparu platfform ar gyfer negodi trefniadau gwell yn y dyfodol. Er bod y TCA yn cynrychioli'r dyfodol rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd, ni ddylai gynrychioli perthynas derfynol y DU â'r UE. Ein blaenoriaeth yw cefnogi'r gwaith o weithredu'r TCA, gan weithio mewn modd adeiladol â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill.

Mae'r TCA yn sail ar gyfer amrediad sylweddol o waith arall sydd ei angen, yn y tymor byrrach a'r tymor hwy, rhwng yr UE a'r DU, am dri phrif reswm[42]:

- oherwydd cyfyngiadau amser sydd ynghlwm â rhai o'r trefniadau ar wyneb y cytundeb, ee y cyfnod addasu ar gyfer pysgodfeydd sy'n dod i ben ym mis Mehefin 2026
- oherwydd bod angen gwneud penderfyniadau eraill yn fuan o fewn fframwaith y cytundebau, ee cymryd rhan yn rhaglenni'r UE fel Horizon Ewrop
- i sicrhau gweithrediad y cytundeb

Bydd y TCA yn cael ei oruchwylio gan Gyngor Partneriaeth ar lefel Weinidogol rhwng yr UE a'r DU. Mae hefyd 18 o 'Bwyllgorau Arbenigol' ar bynciau penodol a phedwar 'Gweithgor technegol' ar faterion penodol, a fydd yn helpu i'w roi ar waith a'i weithredu ac yn cefnogi'r Cyngor Partneriaeth hwnnw. Ni fydd union effaith y TCA yn glir am gyfnod mewn sawl maes, wrth i faterion gael eu trafod yn y fforymau hynny.

Gan gydnabod ein cyfrifoldebau datganoledig am weithredu rhannau o'r cytundeb, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn y strwythur llywodraethu a amlinellir yn y cytundeb. Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r Llywodraethau Datganoledig eraill allu cyfrannu'n sylweddol ac yn effeithiol at y prosesau hynny ynglŷn â materion sydd wedi'u datganoli iddynt, ac ynglŷn â materion eraill sy'n cael effaith sylweddol ar eu cyfrifoldebau datganoledig. Mae cynsail defnyddiol ar gyfer y trefniadau sy'n cael eu

42 Mae'r angen am gytundeb ar ddigonolrwydd data'n cael ei gydnabod hefyd, mewn datganiad ar y cyd, gyda'r bwriad o drafod hyn cyn pen chwe mis.

datblygu a oedd wedi bod ar waith ers 2000 ar gyfer Llywodraethau Datganoledig yn mewnbynnu i fusnes Cyngor Gweinidogion Ewrop, pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE. Dylid efelychu egwyddorion sylfaenol y cynsail hwnnw er mwyn i'r DU gymryd rhan ym mecanweithiau'r TCA.

Mae angen gwneud hyn gan gadw setliadau datganoli mewnol y DU mewn cof. Ar hyn o bryd mae diffyg sefydlogrwydd a chydraddoldeb yn y berthynas rhwng y DU a'r Llywodraethau Datganoledig, a gwahaniaeth barn ynghylch sut y dylai hon weithio. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i Senedd y DU ddeddfu drwy Ddeddf Marchnad Fewnol y DU mewn ffordd sy'n creu amwysedd na welwyd ei debyg o'r blaen ynghylch cwmpas y setliadau datganoli y cytunwyd arnynt yn y gwahanol Ddeddfau Seneddol; deddfau a gafodd eu negodi'n fanwl rhwng llywodraethau, a'u hystyried yn ofalus gan Seneddau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cais am adolygiad barnwrol o'r Ddeddf.

Mae Cymru wedi bod yn genedl Ewropeaidd sy'n edrych tuag allan ers ei ffurfio dros fil o flynyddoedd yn ôl. Bydd hynny'n parhau, am fod ein hanes economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn cydblethu â rhai Ewrop ac yn rhagflaenu creu'r Deyrnas Unedig fodern ers canrifoedd lawer. Dros yr ychydig ganrifoedd diwethaf mae hynny wedi cael ei ategu gan ymgysylltiadau a chysylltiadau mwy byd-eang. Mae ein hunaniaeth unigryw yn seiliedig ar yr hanes hwnnw.

Mae Cymru'n rhannu gwerthoedd sylfaenol â'r UE fel urddas dynol, rhyddid, democratiaeth, cydraddoldeb, rheolaeth y gyfraith ac ymrwymiad i hawliau dynol.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i berthynas weithio agos iawn â'r UE, ei Haelod-wladwriaethau a'i rhanbarthau. Ysgrifennodd y Prif Weinidog at Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Ursula Von der Leyen, ym mis Ionawr i nodi hyn yn glir[43]. Edrychwn ymlaen at barhau a datblygu'r cysylltiadau hynny. Byddwn yn gwneud hynny yn unol ag egwyddorion ein Strategaeth Ryngwladol[44]:

- Byddwn yn codi proffil Cymru yn rhyngwladol
- Byddwn yn tyfu'r economi drwy gynyddu ein hallforion a denu mewnfuddsoddiadau
- Byddwn yn sefydlu Cymru yn gadarn fel gwlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

43 llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-perthynas-cymru-ar-undeb-ewropeaidd-yn-y-dyfodol

44 llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru

The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

David Rees MS
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee

c/o Alun Davidson
Clerk

Via email only
Alun.davidson@senedd.wales
SeneddEAAL@senedd.wales

Health and Sport Committee
T3.60
The Scottish Parliament
Edinburgh
EH99 1SP
Tel: 0131 348 5210
Calls via RNID Typetalk: 18001 0131 348 5224
Email: healthandsport@parliament.scot

17 February 2021

Dear David Rees

**UK Common Frameworks – Provisional UK Common Framework on Food and Feed Safety and Hygiene**

I am writing to bring to your attention some recent work which has been undertaken by the Health and Sport Committee of the Scottish Parliament on the provisional UK Common Framework on Food and Feed Safety and Hygiene.

I understand your committee has also recently considered the provisional framework.

Attached is correspondence we have issued to Mairi Gougeon MSP, Minister for Public Health and Sport setting out our commentary on our consideration of the provisional framework to date.

Yours sincerely

Lewis Macdonald

Lewis Macdonald
Convener, Health and Sport Committee

The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

Mairi Gougeon MSP
Minister for Public Health and Sport

Via email only

Health and Sport Committee
T3.60
The Scottish Parliament
Edinburgh
EH99 1SP
Tel: 0131 348 5210
Calls via RNID Typetalk: 18001 0131 348 5224
Email: healthandsport@parliament.scot

16 February 2021

Dear Minister

**UK Common Frameworks – Provisional UK Common Framework on Food and Feed Safety and Hygiene**

This letter sets out the Health and Sport Committee's commentary on the Provisional UK Common Framework on Food and Feed Safety and Hygiene (FFSH).

To inform the Committee's consideration of the FFSH Provisional Framework we wrote to you with a series of questions on 22 December. Thank you for your response dated the 18 January.

The Committee also held two oral evidence sessions, the first with stakeholders on 19 January and the second with you on 26 January.

This is the second provisional framework that the Committee has considered. Similar issues and themes that arose in our consideration of the Provisional UK Common Framework on Nutrition Labelling, Composition and Standards (NLCS) were again raised during the course of our scrutiny of this Framework.

**Parliament as conduit between stakeholders and Scottish Government**

You stated in your response to our commentary on the NLCS provisional framework the Committee plays a crucial role in relation to highlighting stakeholder concerns or issues with provisional frameworks.

Our scrutiny of the FFSH Framework has again shown concerns from stakeholders about who has been consulted on the framework and the extent of the scrutiny conducted.

We consider our scrutiny to date of frameworks has raised both the profile of specific frameworks and understanding from stakeholders that the Parliament has a role to play in ensuring frameworks are fit for purpose. The Committee has since received approaches from stakeholders requesting information on when other provisional frameworks within our remit will be scrutinised and how they can be involved.

We see the establishment of our role as a conduit between stakeholders and Scottish Government on frameworks as key and are pleased the Scottish Government recognises this too. We hope this will assist in ensuring appropriate consultation of provisional frameworks is conducted by the Scottish Government in advance of our receipt of them. We also wish to ensure that our engagement with stakeholders will be used to inform decision taking before finalisation of a framework.

**Monitoring of framework implementation**

We received evidence from Professor Paul Haggarty that "The mechanisms in relation to food and feed safety regulation, enforcement, etc, have developed organically over decades. They work well but they are enormously complicated. It is possible that the UK may fail to maintain those standards inadvertently by failing to appreciate the full complexity of the process".

In response to this concern Geoff Ogle, Chief Executive, Food Standards Scotland assured the Committee that he was confident that FSS had the "capacity, capability and experience they need" to maintain standards.

- **How will FSS be assessed in this regard? What measures will be used to determine if FSS has ensured the same standards are maintained? What indicators will there be if standards do begin to fall short?**

We note scrutiny of this provisional framework by the House of Lords Common Frameworks Scrutiny Committee established that the Frameworks Management Group will conduct an annual review of the framework and produce a report that will be publicly available. We support the House of Lords Committee's call for reference to this annual review report to be included in the framework and shared with relevant parliamentary committees.

- **Are you able to confirm this approach will be adopted? It would assist if this annual report could contain a summary of the changes made under the framework over the year and a forward look indicating expected changes in the coming year. It would also be helpful to have an indication of when the first annual review of the framework would expect to be produced.**

- **As we stated in relation to consideration of the NLCS framework for the Committee's monitoring of developments to be proportionate and timely**

**the Committee should also be provided with updates by the Scottish Government when material changes in Scottish procedures under this framework are proposed. The Committee should not have to await receipt of the annual report to learn of developments that have already taken place. The Committee should be provided an opportunity to input in good time to comment on and influence proposed approaches. It would assist the Committee if the Scottish Government could set out how such a request could be facilitated given both our scrutiny role and the Scottish Government's monitoring and role in the framework's implementation and ongoing development**.

**Engagement with EU**

Stakeholders suggested the European Food Safety Authority should be consulted on the framework. You raised concern about the appropriateness of asking EU institutions on an intra-UK liaison and policy but noted the need for maintaining dialogue with the EU.

The EFSA continues to have UK expertise on it. There will also be some form of alignment with EU rules on exports to the EU. We therefore consider it important that as this framework develops and beds in this dialogue continues.

- **How will you ensure this dialogue with the EFSA is maintained?**

**Operability of the Framework**

We heard concerns from stakeholders that as EU and Great Britain law diverges the EU will require more and more reassurances that products produced in Scotland will adhere with their standards.

- **Is this a concern you share and how can it be mitigated?**

**Northern Ireland Protocol**

The interoperability of EU frameworks we have considered to date and the Ireland/Northern Ireland Protocol has been highlighted by recent events. This has included in relation to food safety checks for goods going from Great Britain to Northern Ireland.

- **What role has the Scottish Government and FSS played in these recent events relating to the interoperability of the frameworks and the Northern Ireland Protocol?**

**UK Internal Market Act**

We note during your evidence session you suggested that there were examples of potential instances where a divergent policy approach may be agreed but this could

result in problems developing if the market access principles in the Internal Market Act were applied.

**Do you consider in such instances where divergent policies are agreed an additional stage could be added to the framework's process to allow consideration of whether the market access principles should apply? We note the House of Lords Committee has explored this issue with the FSA who have indicated this additional stage should be added to the framework. Are you supportive of this approach?**

**If this results in exemptions from the market access principles being applied how would the Parliament be informed and wider stakeholders?**

It would be helpful if a response could be received by **Wednesday 10 March.**

A copy of this letter will be sent to the other legislators currently considering this provisional framework.

Yours sincerely

Lewis Macdonald

Lewis Macdonald
Convener, Health and Sport Committee